

Ffordd Caeathro'n dal ar gau



Mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn dda ar gynllun ffordd newydd gwerth £135 miliwn.

Mae'r tîm sy'n adeiladu ffordd osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd yn gweithio'n galed i ofalu y bydd yn agor yn 2022 yn ôl y disgwyl. Penodwyd cyd-fenter Balfour Beatty a Jones Bros Civil Engineering UK gan Lywodraeth Cymru i adeiladu'r ffordd a fydd yn gwella amserau teithio, lleihau tagfeydd a chefnogi economi Gogledd Cymru.

Fel rhan o'r cynllun bydd pont newydd yn cael ei chodi dros yr A4085 - Ffordd Waunfawr. Golygodd hyn gau'r ffordd honno i bawb rhwng Bryn Eden a Phlas Treflan, yn gerbydau a cherddwyr.

Cysylltodd tîm y prosiect â phreswylwyr lleol i egluro fod natur y ddaear dan y ffordd osgoi yn golygu na ddisgwylir bellach i'r A4085 ailagor i draffig tan ddiwedd mis Mehefin 2020. Y bwriad gwreiddiol oedd ei hailagor yn Chwefror.

Meddai Elgan Ellis ar ran y contractwyr: "Roedd natur y tir dan y ffordd yn yr ardal hon yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd. Bydd yn rhaid codi strwythur mwy cymhleth a newid ein dull o adeiladu'r bont. Y newid mwyaf arwyddocaol yw'r angen i ddefnyddio slabiau sylfaen mwy o faint. Rhaid gwneud rhagor o waith cloddio ar y ffordd bresennol i hwyluso gwaith adeiladu'r bont, a rhaid codi y rhan fwyaf o wyneb yr A4085 rhwng Caernarfon a Chaeathro dros y cyfnod adeiladu.

Oherwydd y newidiadau ni fydd modd ail osod wyneb terfynol yr A4085 yn ddiogel nes gorffen codi pont y ffordd osgoi. Mae hyn, ynghyd ag ymestyn cyfnodau cau yr ymgymrwyr statudol, yn golygu cau'r ffordd ag gyfnod hirach na'r bwriad gwreiddiol."

Ni effeithir ar ddyddiad cwblhau'r prosiect cyfan a bydd preswylwyr yn dal i fedru cael mynediad i'w heiddo.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

RHIF 485
Mawrth 2020
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911



SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
 ar e-bost i
 ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
 Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,
 Deiniolen LL55 3LU 07798552238
 tonyelliott17@yahoo.com

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
 Marged Rhys
 marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
 Gwyndaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
 Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
 01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
 Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Lowri Ceiriog,
 4 Erw Wen.
 lowriceiriog@hotmail.co.uk

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO:

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
 Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
 56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
 Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR:

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2020

Rhifyn	Copi i law	Bwn delu	Ble
Ebrill	22ain Mawrth	3ydd Ebrill	Llanrug
Mai	19eg Ebrill	1af Mai	Llanrug

Panel Golygyddol "Eco'r Wyddfa"

Beca Brown - 07974193131

Gwenllian Carr Herd a George Herd

Cartref, Penisarwaun LL55 3BS - 07825 241 149 / 07846 037 310

Llion Tegai Iwan - 07970863218

Nesta Elliott, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU - 07825586658

John Pritchard - Cilfynydd, Llanberis LL55 4HB 01286 872390

Bethan Richardson

11 Minffordd, Llanrug, LL55 4PU 07766 104477

Mared Roberts, 8 Minffordd, Llanrug, LL55 4PU, 01286 676426

LLYTHYRAU

NSPCC Cymru/Wales

Annwyl Olygydd,
 Mae plant yn dychwelyd i'w dosbarthiadau ar ôl gwyliau hanner tymor, ac felly hefyd ein tîm pwrpasol o wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n rhoi eu hamser i helpu i gadw plant yn ddiogel ar draws Gwynedd.

Mae pob ysgol gynradd yn gymwys ar gyfer rhaglen ddiogelu rad ac am ddim o'r enw 'Cofia ddweud, Cadwa'n ddiogel', sy'n cael ei chyflwyno gan NSPCC Cymru.

Mae'r sesiynau'n cael eu cyflwyno gan dîm ymroddedig o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu eraill. Fodd bynnag, mae angen mwy o wirfoddolwyr arnom er mwyn i ni allu cyrraedd cynifer â phosib o blant gyda'r negeseuon pwysig hyn.

Rydyn ni'n ymweld ag ysgolion Cymraeg a Saesneg eu hiaith gyda'r rhaglen, sy'n helpu plant i ddysgu mewn ffordd briodol i'w hoedran am y gwahanol fathau o gam-drin, oedolion y gellir ymddiried ynddyn nhw, a Childline.

Yn anffodus, ni fydd llawer o blant yn gwybod bod yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw yn gam-drin, a gyda dau blentyn mewn dosbarth ar gyfartaledd yn profi

rhyw fath o gam-drin, mae'n hanfodol ein bod yn grymuso'r genhedlaeth nesaf ac yn sicrhau ein bod yn eu hamddiffyn.

Rydyn ni'n cynnig ein gwasanaethau boreol a'n gweithdai yn ddwyieithog, er mwyn i ni allu cyflwyno'r rhaglen i blant yn yr iaith maen nhw'n fwyaf cyfforddus â hi, ac ar hyn o bryd mae angen mwy o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg arnom.

Mae ein gwirfoddolwyr hyfforddedig yn ymrwymo i gyflwyno o leiaf ddwy sesiwn y mis a helpu i gychwyn sgyrsiau am gam-drin mewn ffordd ryngweithiol, gan alluogi athrawon i barhau â'r trafodaethau gyda'u myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Mae ein gwirfoddolwyr i gyd yn teimlo'n gryf ynglŷn ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maen nhw'n cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen amyn nhw er mwyn iddynt deimlo'n hyderus yn eu rôl.

Gall unrhyw un a hoffai wybod mwy am wirfoddoli gyda ni gysylltu â fi ar 07980 005 964 neu anfon e-bost at Rhian. Jones@nspcc.org.uk.

Rhian Jones
 NSPCC Cymru/Wales

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50.00 Er cof am y diweddar Clifford Davies, Newton Street, Llanberis.

£20.00 Nan Roberts, 10 Erw Wen, Caeathro; Seiriol a Bet Owen, Bethel er cof am Euronwy Williams

£10.00 Alun a Maureen Evans, 32 New Street, Deiniolen; Mrs Doris Roberts, Waunfawr

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Cafwyd cychwyn arbennig iawn i'r flwyddyn newydd yng nghwmni J. Elwyn Hughes o Fethel bellach ond hogyn o Bethesda.

"Bro Caradog Prichard drwy Luniau" oedd ei bwnc, a dangoswyd nifer helaeth o luniau, rhai yn hen gardiau post a rhai a dynnwyd gan Elwyn ei hun dros nifer fawr o flynyddoedd.

Cawsom gip o hen gymeriadau yr ardal, yr adeiladau a lleoliadau. Cafwyd ambell stori ddigri hefyd ac roedd yr ymateb ar y diwedd yn un cynnes iawn ac fe rannodd rhai eu hatgofion hwythau am yr ardal hynod hon.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Elwyn gan Geraint Jones, ein Trysorydd.

Chwefror 19eg byddwn yn croesawu Dr Wiliam Lewis a fydd yn sôn am y dylanwadau ar y dramodydd. Dowch draw i Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon erbyn 7.30 p.m. Croeso cynnes a phaned yn eich disgwyl.

ECO'R WYDDFA - PRISIAU HYSBYSEBU

Un hysbyseb yn unig					Cyfres o 4 hysbyseb neu fwy			
Colofn (lled 5 cm)	Uchder 8 cm	Uchder 16 cm	Uchder 24 cm	Uchder 36 cm	Colofn (lled 5 cm)	Uchder 8 cm	Uchder 16 cm	Uchder 24 cm
1	£24	£48	£72	£96	1	£12	£24	£36
2	£48	£96	£144	£192	2	£24	£48	£72
3	£72	£144	£216	£288	3	£36	£72	£108
4	£96	£196	£288	£384	4	£48	£96	£144

Hysbysebion gan Elusennau Lleol

Hysbyseb 1 gol/ 8cm uchder - am ddim

Hysbyseb fwy - fel uchod llai cost 1 gol/ 8cm uchder

Diwedd Cyfnod -Dechrau Cyfnod

Byddwch yn sylwi bod manylion cyswllt aelodau'r Panel Golygyddol newydd i'w gweld isod ac ar dudalen 2. Wrth eu croesawu a diolch iddynt am ymgymryd â'r gwaith, yr ydym hefyd yn wynebu'r ffaith mai rhifyn Mawrth yw'r olaf o dan olygyddiaeth Dafydd Whiteside Thomas. Mae cyfraniad Dafydd i'r Eco dros nifer fawr o flynyddoedd wedi bod yn anfesuradwy. Mae ein diolch iddo a'n gwerthfawrogiad o'i ymroddiad i'r papur yn enfawr.

Gair (olaf) gan y Golygydd

Oherwydd amgylchiadau, hwn fydd y rhifyn olaf o'r "Eco" i mi fod yn gyfrifol amdano – ond nid hwn fydd y rhifyn olaf, diolch i'r gwirfoddolwyr uchod sydd wedi ffurfio Panel Golygyddol i sicrhau fod ein papur bro yn parhau.

Mae'r gwaith wedi bod yn boen (weithiau) ac yn bleser (y rhan fwyaf o'r amser), a does gen i ond diolch i bawb (heb enwi neb) am y gefnogaeth dros yr holl flynyddoedd. Diolch yn arbennig i'r holl gyfrannwyr – y rhai achlysurol a'r rhai rheolaidd – sydd wedi helpu i lenwi'r papur gyda straeon ac erthyglau difyr ac addysgiadol. Diolch hefyd i'r rhai sydd wedi rhoi caniatad defnyddio eu lluniau yn ddi-dâl. Ac i chwithau, y rhai sy'n prynu'r papur yn rheolaidd. Hebddoch, byddai'r "Eco" wedi dirwyn i ben flynyddoedd yn ôl. Daliwch ati i gefnogi'r criw newydd.

Y rhifyn hwn hefyd ydi'r olaf i gael ei argraffu gan Wasg Dwyfor. Mae ein diolch iddynt hwythau hefyd am ofalu fod y papur ar gael i'w ddosbarthu bob mis. Dymuniadau gorau iddynt hwythau i'r dyfodol.

O rifyn Ebrill ymlaen, Gwasg Y Lolfa fydd yn gyfrifol am argraffu'r papur, a bydd POB tudalen yn llawn lliw. Felly, cofiwch anfon digon o luniau o wahanol ddigwyddiadau'r fro!

Panel Golygyddol



Hoffem eich hysbysu bod criw ohonom bellach wedi gwirfoddoli i weithredu fel Panel Golygyddol ar gyfer Eco'r Wyddfa, gan gychwyn ein dyletswyddau ar gyfer rhifyn mis Ebrill.

O ddiwedd mis Mawrth ymlaen, bydd angen i chi anfon unrhyw straeon ac erthyglau ar e-bost at ecorwyddfa@gmail.com neu at un o aelodau'r panel a nodir isod ac ar dudalen 2.

Beca Brown - 07974193131

Gwenllian Carr Herd a George Herd - Cartref, Penisarwaun LL55 3BS - 07825 241 149 / 07846 037 310

Llion Tegai Iwan - 07970863218

Nesta Elliott, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU - 07825586658

John Pritchard - Cilfynydd, Llanberis LL55 4HB - 01286 872390

Bethan Richardson – 11 Minffordd, Llanrug, LL55 4PU – 07766 104477

Mared Roberts, 8 Minffordd, Llanrug, LL55 4PU, 01286 676426

Yn ystod y mis aeth heibio

• Ydan, ryda ni wedi gadael y Gymuned Ewropeaidd, ac mae Boris am i ni beidio defnyddio'r gair 'brexit' bellach. Ond y gwir plaen ydi y bydd yn rhan o'n geirfa am flynyddoedd i ddod. A beth am yr addewidion? Ydi'r Gwasanaeth Iechyd wedi derbyn y miliynau wythnosol? Ydi gwledydd y byd yn ymladd ymysg ei gilydd i gael y cytundebau masnach rheini oedd 'mor hawdd'? Ac y mae angen cytuno ar y math o fasnachu rhyngom â'r Gymuned Ewropeaidd erbyn diwedd eleni. Byddwn yn parhau i siarad am brexit o fewn y flwyddyn, beth bynnag ydi dymuniad Boris.

• Cyhoeddodd y Llywodraeth fod HS2 i'w gwblhau, a hynny ar gost anhygoel o ddrud. Ond llawenhewch! Bydd yn bosib teithio o Lundain i Birmingham ugain munud neu hanner awr yn gyflymach nac ar hyn o bryd. (Mae'r amser a gaiff ei arbed yn ddibynnol ar faint o ddail fydd ar y lein). Ac wrth gwrs, bydd trethdalwyr Cymru yn hynod falch o gael cyfrannu at y gost er mwyn helpu ein cymdogion tlotach. Bydd yr Alban a Gogledd Iwerddon yn derbyn arian ychwanegol yn sgil y cynllun, ond gan fod Wëls yn rhan o England, dim ond cyfrannu wnawn ni ac nid derbyn.

• Y Llywodraeth hefyd yn cyhoeddi fod £5 biliwn i'w wario dros y pum mlynedd nesaf ar wella gwasanaethau bysus a chyfleusterau beicio – yn Lloegr. Dim i Gymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Dyma enghraifft wych o ystyr 'One Nation Conservatism'. Fe wyddom bellach mai Lloegr ydi'r 'one nation' dan sylw. Fel petae ni heb fod yn gwybod hynny yn barod.

• Storm Ciara yn cael ei dilyn gan Storm Dennis yn creu problemau a difrod led-led gwledydd Prydain.

• Coronavirus yn lledu drwy'r byd.

• Etholiad yn Iwerddon yn hollti'r wlad rhwng y dair brif blaid, ond Sinn Fein yn gobeithio ffurfio llywodraeth gyda chymorth rhai o'r pleidiau llai. Mae hynny'n gwneud uno Gogledd Iwerddon a'r Weriniaeth yn bosibilrwydd real iawn yn ystod y blynyddoedd i ddod.

• Llwybrau Cyhoeddus. Roedd yn ddechrau'r 1950'au ar wirfoddolwyr led-led y wlad yn cerdded a chofnodi llwybrau (gan gynnwys pob giât mochyn a chamfa) a llwybrau ceffyl. Cawsant eu cynnwys mewn mapiau swyddogol gan yr hen gynghorau sir. Y mapiau hyn sy'n parhau mewn bodolaeth i ddangos y llwybrau a gofrestrwyd. Ond mae eraill. A rhaid gwneud cais am eu cofrestru o fewn y chwe mlynedd nesaf neu fe'u collir am byth. Oes yna lwybrau o fewn y fro sy'n parhau i gael eu cerdded, ond heb fod ar y mapiau swyddogol? Dylai clercod eich cynghorau cymuned fod â chopïau o'r mapiau swyddogol.

• Meicro-plastigiau wedi eu darganfod yn Llyn Glaslyn, yn uchel ar lethrau'r Wyddfa, a hynny wedi dadansoddiad o'r dŵr gan wyddonwyr ym Mhrifysgol Bangor.

Ysgol Gwaun Gynfi



Prynhawn agored i'r rhieni – disgyblion yn arwain eu rhieni o gwmpas y dosbarth. Rhieni yn cael ymuno yn y gwersi ac ar y buarth.



Prysurdeb yn nosbarth y Meithrin yn datrys problemau. Roedd cyfle i gyfri sawl ffa sydd gan Jac, a chyfle i wneud paned o de i'r cawr mawr!



Diolch yn fawr i Manny Shoker am ei gyfraniad hael tuag at ein piano newydd. Gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Ymweliad gan Lili'r ci unwaith eto. Cyfle i ddysgu mwy am ofalu am anifeiliaid anwes a mwynhau ei chwmni annwyl. Lili wrth ei bodd gyda'r holl sylw.



Diwrnod Dysgwyr Disglair yn dathlu ein thema Hud a Lledrith

Cawsom sioe hud gan Proffesor Llusern a chynnal gemau hudolus. Roedd cyfle hefyd i gynnal arbrofion gwyddonol yn y dosbarthiadau fel rhan o'r dathliad.



Dathlu Diwrnod Miwsig Cymraeg yn nosbarth Mrs Roberts. Pawb yn mwynhau dawnsio a chanu caneuon cyfarwydd.



Gwersi coginio yn nosbarth Mrs Roberts. Y disgyblion wedi mwynhau coginio cacennau blasus iawn.



Clwb pêl-droed ar ôl ysgol gyda Mr Owen. Y plant yn mwynhau dysgu sgiliau newydd.

Parhad DEINIOLEN



Angladd Yn Eglwys Crist, dydd Sadwrn, Rhagfyr 21 2019, cynhaliwyd gwasanaeth angladdol y diweddar Clifford Davies, Glyn y Ddôl, 33 Stryd Newton, Llanberis. Roedd yn 84 mlwydd oed. Y Canon Idris Thomas a oedd yn byw nepell o aelwyd Clifford yn Ninorwig, sef Ysgubor, oedd yn gwasanaethu a soniodd yn dda am fywyd a gwaith Clifford. Yr organyddes oedd Eleri Bean. Cydymdeimlir gyda'i briod Diana a'i ferch Nia a'i phriod Aled, a chyda'i wŷr Ioan, y meddyliai Clifford y byd ohono. Daeth tyrfa luosog i'w gynhebrwng. Priododd Diana a Clifford yn Eglwys Crist yn 1963 gyda'r diweddar Ganon Evan Trefor Jones yn gwasanaethu. Bu Cliffordd a Diana yn cadw'r Post a'r Siop yma yng nghanol Stryd Deiniolen am 17 mlynedd a diolchir iddynt am y cyfnod hwn. Roedd y gladdedigaeth yn mynwent Macpela. Coffa da am Clifford.

Diolchiadau Dymuna teulu'r diweddar Clifford Davies,

Newton Street, Llanberis, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd tua atynt yn eu profedigaeth o golli Priod, Tad a Thaid annwyl iawn.

Diolch i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth, dydd yr angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Cliff, a roddir i Eglwys Crist Llandinorwig, Ward Moelwyn, Ward Peblig, a Meddygfa Llanberis.

Diolch. Dymuna Alun a Maureen Evans, 32 New Street, ddiolch o galon am y blodau, yr anrhegion a'r cyfarchion ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Tryfan Gwynedd Jones, Rhiw Goch, Clwt y Bont, ar ei enwebiad a thlws gan Glwb Gymnasteg Eryri a Gymnasteg Cymru.

Cydymdeimlo Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu a ffrindiau'r ddiweddar Mrs Buddug Wyn Cyster, Bryn Derw, Clwt y Bont, a fu farw ar Ionawr 21ain.

Cydymdeimlir hefyd gyda theulu a ffrindiau Mrs Clarice Roberts gynt o Tan yr Henffordd, Clwt y Bont, a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mrs Roberts yn cadw tafarn y Bull am flynyddoedd.

Ciosg ffon Deiniolen Derbyniodd y Cyngorydd Elfed Williams lythyr yn ddiweddar gan BT yn nodi cychwyn proses ymgynghori ffurfiol yn gysylltiedig â'u rhaglen i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus, gan gynnwys y ciosg ffôn yn Neiniolen. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 20/04/2020 ac fe allwch ebostio'r cwmni trwy bt.com Maent hefyd yn cynnig i'r gymuned leol fabwysiadu'r caban ffôn er creu ased y bydd pobl lleol yn gallu fwynhau, mae'r broses syml yma yn costio £1 yn unig.

Merched y Wawr Yn ystod cyfarfod mis Ionawr, cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Dylan Arnold, Llanrug, ar y testun Y Stori Tu Ôl i'r Llun. Dangosodd

nifer o luniau a chafwyd hanes diddorol tu ôl i sut y crewyd y lluniau ganddo. Diolch i Marina, Eirlys a Nia am wneud y te. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 17eg yng nghwmni Gwen Davies, Caernarfon, ar y testun Iechyd y Llygaid. Byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi eleni gyda noson yn nhafarn y Garddfon, Y Felinheli, ar yr 20fed o Fawrth.

Cymdeithas Lenyddol Deiniolen Cynhaliwyd noson ddiffr yng nghwmni Cadi Iolen o'r Amgueddfa Lechi yn trafod 50 mlynedd ers cau chwarel Dinorwig. Rhannwyd nifer o atgofion ar y noson trwy ddefnyddio ffilm a sain a nifer o luniau diddorol a da oedd clywed atgofion aelodau'r Gymdeithas eu hunain. Mi fyddai'r Amgueddfa yn falch iawn o glywed gan drigolion yr ardal am eu atgofion o'r chwarel a'r cyfnod ac i gysylltu â nhw os am rannu unrhyw hanes. Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar Chwefror 24ain yng nghwmni Rhys Jones o'r Waunfawr fydd yn sgwrsio am wyllo adar yn America.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiâu ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

CEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Gohebydd Newyddion. Mae Nan Roberts yn ymddeol yn haeddiannol o'i swydd fel gohebydd pentref Waunfawr. Roedd wedi bwriadu gwneud hynny yr haf diwethaf, ond gan nad oedd neb o drigolion y pentref wedi cynnig eu hunain i wneud y gwaith, penderfynodd Nan barhau hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae Pwyllgor Rheoli yr "Eco" yn hynod ddiolchgar i Nan am ei hymroddiad i'r gwaith gwirfoddol hwn dros nifer helaeth o flynyddoedd, ac apeliwn am waed newydd i ymgymryd â'r gwaith o Ebrill ymlaen.

Mudiad yr Urdd Mae yn dymor Eisteddfodau'r Urdd unwaith eto a llawer o'r aelodau wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y cystadlaethau. Bydd Eisteddfod Cylch Arfon dan 12 oed yn cael ei chynnal yn Neuadd Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Chwefror 29. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch.

Clwb 300 Enillwyr Clwb 300 y Ganolfan am fis Ionawr oedd: £30: Treflyn Thomas, Treforfan (273); £20: Helen Cox, Cartref (13); £10: Iona Williams, Llwydiarth (62).

Merched y Wawr Aled Taylor, aelod o Dîm Achub Mynydd Llanberis a Warden y Wyddfa oedd ein gŵr gwadd y mis diwethaf ac roedd gwranddo arno yn sôn am y gwaith yn gwneud i ni feddwl mor bwysig yw i bawb sy'n cerdded a dringo'r mynyddoedd ofalu eu bod yn gwisgo yn addas ar gyfer y tywydd a bod ganddynt offer addas gyda hwy. Bu Aled yn aelod o'r tîm Achub am yn agos i 40 mlynedd ac yn Warden i Barc Cenedlaethol Eryri yn ystod ei yrfa. Mae'n un o'r rhai sy'n adnabod y llethrau yn dda iawn. Roedd hyn yn amlwg yn ei sgwrs yn cofio ac yn disgrifio'n fanwl leoliad anffawd y cerddwyr a'r dringwyr, a'r gwaith mor anodd a chyfrifol oedd eu cario i lawr o'r mynyddoedd.

Estynnodd Bethan groeso i Eirian, aelod newydd i'r gangen, ac fe fwynhaodd fod yn bresennol yn gwranddo ar brofiadau Aled wrth ei waith ar y mynyddoedd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mawrth 26, yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch pryd y cawn noson yng nghwmni Anwen Thomas o gwmni "Troedio". Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth eleni yn Llanrwst ar Fai y 9fed. Os oes aelodau yn awyddus i fynd, fe gewch y manylion gan Bethan neu Carys.

Rydw i'n ysgrifennu hyn ar nos Sadwrn, Chwefror 8fed ac yn clywed sŵn gwynt a glaw Storm Ciara ar y ffenest ac yn dweud wrthyf fy hun, "Gobeithio nad oes neb ar yr Wyddfa heno!"

Mae Doris Roberts, Dwyros, yn falch iawn o'i gor wyres, Mareed Ann Parry (8 oed) sydd wedi ennill medal arian yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Nofio yr Urdd yng Nghaerdydd ar Sadwrn, Ionawr 25ain. Roedd Mareed yn cynrychioli Sir Ddinbych, a llwyddodd i nofio ras broga 25m mewn 25.83 eiliad. Mae hi yn ddisgybl yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych.

Diolch Cynhaliwyd sesiwn o Crefft, Cân a Stori yn Festri y Capel fore Sadwrn, Chwefror 8, i blant y pentref yng ngofal Mrs Susan Williams, Ceunant, o Gynllun Efe. Diolch iddi am roi ei hamser ac i'r rhai fu'n ei helpu. Diolch i'r rhieni am ddod â'r plant i'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 4ydd yn y Festri a'r un wedyn fore Sadwrn, Mehefin 6ed, am 10.30 tan 12.30 o'r gloch. Mae croeso i'r plant a'u rhieni.

Babanod bach newydd yn y pentref Rydym yn llongyfarch teuluoedd â chysylltiad â'r Waun ar enedigath baban bach.

Llongyfarchiadau i Sylvia (gynt o Pen y Graig) o Gaernarfon yn awr, ar ddod yn nain i wyres fach newydd, Radi Fwyn. Merch fach i Llinos ac Ifan a chwaer i Magw, Mari a Jano, sy'n siŵr o fod wedi gwirioni â hi.

Mab bach, Owi Gwilym, a anwyd i Eleri ac Aled. Llongyfarchiadau i chi a chroeso mawr i chi yma i fyw yn Llwyn Celyn.

Ganwyd merch fach, Raya Enfys, i Kalina a John Coles. Wyres fach i Luned a William, Stad Bro Waun, sydd yn falch fod merch fach i'r teulu.

Rydym yn llongyfarch Carys, sydd yn dal i fod â chysylltiad â phentref Waunfawr drwy ei merch, Manon a'r teulu, ar ddod yn nain i ŵyr bach newydd, mab i Dylan a Donna. Mae Gwion yn lwcus iawn o gael brawd a chwaer, Ellen a Dilyn, i helpu mam a dad i edrych ar ei ôl.

Pen-blwydd Hapus i Dewi Morris yn 50 mlwydd oed. Dymuna Dewi ddiolch i bawb am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig.

Clwb Beganifs Roedd hi'n braf darllen fod Clwb Ieuenctid Waunfawr wedi cyrraedd rhestr fer grant 'Eich Cymuned, Eich Dewis' Heddlu Gogledd Cymru. Y fenter gymdeithasol, Antur Waunfawr, sydd wedi bod yn rhedeg y clwb ar eu safle gyda chefnogaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd mewn ymgais i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref.

Wedi darllen fod y clwb wedi cynnig gweithgareddau foel coginio, gemau, garddio a cherddoriaeth i'r bobl ifanc, mae'n amlwg eu bod wedi mwynhau a chymryd diddordeb ac yn falch iawn o'r cyfleoedd ac yn dangos parch. Mae'n werth darllen yr erthygl yn rhifyn Chwefror o'r Eco. Gallwch gysylltu â'r clwb i gael manylion. Diolch i'r rhai sydd wedi cymryd diddordeb yn y bobl ifanc.

Croeso Adref o'r Ysbyty Rydym yn falch o groesawu Gwenda Griffith, Mrs Menna McDaid a Mrs Emsul Jones adref o'r ysbyty wedi iddynt dderbyn triniaeth a gofal yno. Anfonwn gofion cynnes atoch a phob dymuniad da.

Anfonwn gofion cynnes hefyd at Cadi Jones, Brenda Jones, Mrs Margaret Jones a Derfel Parry sydd yn derbyn gofal mewn ysbyty ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion cynnes hefyd at y rhai sydd heb fod yn teimlo'n dda yn ddiweddar ac wedi cael gofal gan y meddygon teulu a'r gweinyddesau.

Profedigaeth Daeth y brofedigaeth o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith annwyl i ran Derek ac Eleri, Stad Tŷ Hen. Cydymdeimlwn â hwy ac â'r plant ar golli eu modryb.

Llongyfarch

Mae Doris Roberts, Dwyros, yn falch iawn o'i gor wyres, Mareed Ann Parry (8 oed) sydd wedi ennill medal arian yng Nghystadleuaeth Cenedlaethol Nofio yr Urdd yng Nghaerdydd ar Sadwrn Ionawr 25ain. Roedd Mareed yn cynrychioli Sir Ddinbych, a llwyddodd i nofio ras broga 25m mewn 25.83 eiliad. Mae hi yn ddisgybl yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Mawrth

1: Parch Dafydd Lloyd Hughes

8: Mrs Nerys Griffiths

15: Mr Dafydd C. Thomas

22: Parch Kath Williams

29: Parch Eifion W. Williams

Os wyf wedi anghofio nodi digwyddiad pwysig neu anfon cofion at drigolion y pentref, rwyf yn ymddiheuro.

CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

W

Capel - Gwasanaethau – Ar y 1af o Fawrth bydd Gwasanaeth am 2:00pm dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Yn dilyn y Gwasanaeth, bydd Cyfarfod Blynyddol am 3:00pm i aelodau a gwrandawyr. Bydd Cyfarfod Tîm Cefnogol i ddilyn am 3:15pm. Ar 15fed o Fawrth bydd Gwasanaeth am 2:00pm dan arweiniad y Parchedig Huw Dylan.

Eisteddfod yr Urdd Dymuniadau gorau i holl blant y pentref a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn ystod yr wythnosau nesaf – pob lwc bawb!

Miri a Moli Ar ddydd Sul, yr 8fed o Fawrth, bydd sesiwn arall o Miri a Moli yn cael ei gynnal yng Nghanolfan y Capel, i gychwyn am 2:30pm. Croeso i bawb.

Tynfa Misol: 1af (£40) – Rhif 64: Alun Roberts (Monfa); 2il (£25) – Rhif 40: Jayne Lloyd (Tyddyn Cae); 3ydd (£15) – Rhif 73: Marian Hughes (Tŷ Mawr); 4ydd (£5) – Rhif 72: T. ac M. Evans (Plas Treflan).

CWMY GLO

W

Llongyfarchiadau i Dafydd a Vera Price, Tan y Graig, ar ddod yn Daid a Nain i Gwen Vivian, merch fach i Glyn a Mari Price, Cae Berllan, Caernarfon, a wyres hefyd i Derwyn a Rhiannon,Caeathro.

Cydymdeimlwn gyda Catherine Roberts a'r teulu, Dolafon, yn eu profedigaeth o golli ei chwaer, Beryl, oedd yn byw yng Nghaernarfon. Meddwl amdanoch.

Undeb y Mamau


Cafwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn festri St Mair ar bnawn Mawrth, 21ain o Ionawr. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd munud tawel i gydymdeimlo â Beryl Roberts a gollodd ei gŵr yn ddiweddar.

Gan fod y cyfarfodydd gyda’r nos wedi dod i ben, croesawyd amryw o aelodau newydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan amryw aelodau oedd yn methu bod yn bresennol. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Tachwedd fel rhai cywir.

Gwasanaeth ‘Ton o Weddi’ oedd y prynhawn hwn, a chymerwyd rhan gan nifer o’r aelodau. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Auriel, Dilys a Brenda. Diolchwyd iddynt gan Dorothy. Enillwyd y raffl gan Dilys.

Terfynwyd drwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

ARVONIA

- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk






BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580

W

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Mawrth am 5 yr hwyr

1: Parch Marcus Wyn Robinson – Gweinidog

8: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

15: Parch Eric Jones, Bangor

22: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

29: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291


W

Tymhorau'r Flwyddyn I ble tybed yr aeth mis Ionawr mor sydyn eleni a'n bod erbyn hyn wedi cefnu ar y mis bach! Er ei fod yn fis lleiaf y flwyddyn yr wyf yn credu ei fod yn fis bach digon peryg. Ym mis Chwefror yr ydym yn gweld colledion trwm o fewn bro'r Eco, lle mae'r gerddi a phob dim allanol yn edrych yn ddigon blêr a thlodaidd. Mis ydyw pan ydym yn cael pob math o dywydd: eira, glaw a gwyntoedd cryfion, ac y mae hynny yn berffaith wir am eleni. Cawsom y storm Ciara eleni a dyma beth oedd storm - gwynt cryf yn Aberdaron a Chapel Curig a glaw. Penwythnos ofnadwy oedd yr 8fed a'r 9fed o'r mis. Llawer o addoldai wedi gorfod cau oherwydd y tywydd ac nid yn aml yr ydym yn clywed sôn am addoldai yn gorfod cau fel hyn, fel Berea Newydd ac Emaus ym Mangor. A daeth eira yn ei sgil hefyd. Credaf bod y gwynt wedi bod yn andros o gryf drwy'r gaeaf. Cawsom wynt cryf iawn cyn y Nadolig pryd y cefais i fy nhaflu ganddo, ac fel yr oeddwn yn trio codi nid oedd yn bosib gan fy mod yn cael fy nhaflu eto ac ar lawr y bûm hyd nes y daeth car a dau ddyn yn dod allan ohono a'm cario i'r tŷ. Diolch o galon iddynt, dau Sais oeddynt ac nid oeddwn yn eu hadnabod. Yn y tŷ y bûm am bythefnos ac ofn mynd allan yn y gwynt. Yr unig beth o blaid y mis hwn ydyw bod y gwanwyn ar ei ffordd a'r dydd yn ymestyn. Ond mae natur yn dechrau ymddangos yn y tir a phob dim yn dechrau blaguro. Rywbeth i edrych ymlaen ato a chael mynd allan i'w weld ar ei orau a chael dipyn o awyr iach.

Diwedd Gwasg Dwyfor Daeth y newydd trist rai wythnosau yn ôl i swyddogion yr Eco bod Gwasg Dwyfor yn dirwyn i ben gan bod Dafydd, y pennaeth, yn ymddeol. Rwyf yn sicr y byddwn yn ei golli ond ar yr un pryd yn dymuno diolch iddo am ei waith a'i gydweithio parod hefo'r Eco. Dymunwn ymddeoliad hapus ac iechyd i'r dyfodol.

Carem ddiolch hefyd i'r hogiau, sef Rhun a Carl, am eu cydweithio hapus efo'r tîm, bob amser yn barod iawn i fynd y filltir arall hefo ni. Deall eich bod eich dau am gario ymlaen hefo'r printio ond i gychwyn ar raddfa lawer llai. Pob lwc i'r dyfodol.

Cofion Ein cofion annwyl at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, a Phlas Garnedd, Llanberis, yn awr. Pawb yn dal i holi amdanoch a chwithau yn mynd yn nes am y 105 bob dydd. Daliwch ati. Mae yna dipyn o gwyno yn yr ardal o hyd. Ein cofion gorau atoch chithau a brysiwch wella erbyn y gwanwyn.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com

O Landdeiniolen i Bennsylvania

Gyda diolch unwaith eto i W. Arvon Roberts, Pwllheli am erthygl arall am hanes ymfudwyr o'r fro hon i'r Unol Daleithiau.

Y Sedd yn y Capel

Y sedd yn y capel gynnwysai naw;
'Roedd mam wrth ei drws, ac yn y pen draw -
Eisteddai fy nhad, a ninnau y plant
Yn rheng yn ei chanol, rhwng y ddau sant.

Y sedd yn y capel, fe ddylai fod
Mynychu hon gan deuluoedd yn nod;
Tad wrth ei phared, a mam wrth ei drws,
A'r plant yn ei chanol. Beth sydd mor dlws?

Y sedd yn y capel a lanwer fel hyn,
Sylw angylion yn ddiau a dynn;
A boddus fedyddiant y sedd-fainc gul,
Â nefol fendithion ar fore Sul.

Y sedd yn y capel, cysurol fan
Pererin llesg ar ei ffordd i'r lan;
Ordeinle Duw i chwanegu ffydd -
Man i gael "nerth yn ôl y dydd".

Y sedd yn y capel sy'n llanw'r nef
A theulu anthemant byth "Iddo Ef";
O'r nef i'r Sedd daw sanctaidd wawl,
O'r Sedd i'r Nef yr esgynna'r mawl.

I'r sedd yn y capel, yn llaw fy mam,
Arweinid fi gynt, cyn wybod paham;
Da gwn yn awr mai ariandy Duw
I lanw gofynion yr enaid yw.

O'r sedd yn y capel eiddunaf am
Eisteddfa eto gyda nhad a mam,
Ym mro y Wyddfa, a'r nefol gainc,
A'i seddau, bob un, yn orsedd fainc.
J.W. Morris, Poultney, Vermont (1914)

Ganwyd John William Morris yn Fachwen, Dinorwig, neu yn Bryn Bela, Llanddeiniolen, yn ôl eraill. Ei rieni oedd William Morris Jones (1806-1877), chwarelwr o Lanrug, a Catherine Roberts (1808-1871) o Laniestyn, Llŷn. Yr oedd ei fam yn gyfnither i'r Parchedig Robert Hughes (1811-1892), Uwchlaw'r Ffynnon, Llanaelhaearn, gŵr o gryn ddylanwad yn ei gylch yn ei ddydd. Ychydig o ysgol a gafodd, aeth i weithio i'r chwarel yn hogyn ifanc.

Yn 1867 ymfudodd i Slatington, Pennsylvania, ond cyn hynny bu'n crwydro ymysg ffermwyr Cymraeg yn Kansas am saith mis tra yr oedd chwareli Slatington yn segur. Dychwelodd i Pennsylvania ac ar Mehefin 29, 1869, priododd Mary Roberts (1851-1924), merch i Benjamin a Catherine Roberts, Slatington, gynt o Lanllechid, Arfon. Ganwyd iddynt saith o blant, pedwar o feibion a thair o ferched: John J. (1871-1947), Easton, Pa; Mrs Catherine Roomey (1872-1958), Granville, E.N.; Benjamin (1874-1933), Easton, Pa; Mrs Margaret Williams (1877-1963), Granville, E.N.; William J. (1880-1952), Cambridge, E.N.; Robert (1885-

1892), Poultney, Vermont; a Mrs Mary J. Pickering (1889-1980), Granville, Efrog Newydd.

Yr oedd y teulu yn aelodau ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Presbyteriaidd Cymraeg Slatington, a cyn ei fod yn 30 mlwydd oed codwyd John W. Morris yn flaenor yno. Ym mis Medi 1880 fe'i derbyniwyd efyn aelod o Gyfarfod Dosbarth De Pennsylvania, ac ymhen pum mlynedd ar ôl hynny dechreuodd bregethu.

Yn 1888 daeth yn weinidog ar yr achosion Cymraeg yn Poultney a South Poultney, Vermont. Ymunodd ei deulu ac ef yno mis Tachwedd 1889. Ordeiniwyd ef mewn Cymanfa a gynhaliwyd yn Ninas Efrog Nwydd. Cafodd alwad i Slatington yn 1892 a bu'n llafurio yn galed yno am rai blynyddoedd ond gwelodd bod angen paratoi dwy bregeth bob wythnos yn dreth drom ar ei nerth, a dechreuodd ei iechyd ddihoeni. Aeth capeli Cymraeg Poultney a South Poultney yn wag, ac ar ôl deall yr amgylchiadau aeth yn ei ôl eilwaith i'r dalaith honno a bu yno o 1899 hyd 1924. Ychwanegwyd Capel Blisville, Vermont, at ei ofalaeth.


Tua 1924 dechreuodd ei iechyd dorri i lawr ac amharwyd ar ei lais fel na allai ef lefaru yn hyglyw. Ymddiswyddodd o'r weinidogaeth Medi 17, 1923, a symudodd gyda'i deulu i Granville, Efrog Newydd, lle y bu farw Mai 6, 1928.

* * *

Yn ystod ei grwydro mynych rhwng ei alwadau pregethu yr oedd yn rhaid iddo gystadlu â cheffyl oedd â meddwl ei hun ganddo o'r enw 'Hen Dan'. Nid oedd gan yr anifail unrhyw ofn o'r pregethwr addfwyn oherwydd ni fyddai ef byth yn codi ei chwip tuag ato waeth yn y byd pa mor ystyfnig neu groes y byddai yn ymddwyn. Efallai bod J.W. Morris a'i geffyl ystyfnig wedi bod yn broblem i drafnidiaeth eu cyfnod, ond yr oedd y ddau ohonynt yn llwyddo i gyrraedd pen eu taith. Ac yn ôl yr hanes, dywedir bod yr 'Hen Dan' yn un o'r rhai mwyaf trist pan ymadawodd ei berchennog am Pennsylvania.


Ysgrifennodd J.W.M. nifer o erthyglau o bryd i'w gilydd i'r Drych a'r Cyfaill, yn ogystal â rhai pregethau. Darllenodd bapur yng Nghymanfa Gyffredinol Utica yn 1913 ar y pwnc 'Diwinyddiaeth Cymreig: Ei Phrif Deithiau yn ystod yr hanner canrif diwethaf'. Yn 1919 paratôdd ddwy ysgrif neu dair ar y teitl 'Gweledigaethau Fy Mhen, Ynghyd â Ffeithiau Fy Mywyd'.

Bu ei ferch, Catherine, farw yn 86 oed, pan syrthiodd i lawr y grisiau yn ei chartref yn Stryd Washington, Granville. Aed â hi i Ysbyty Albany, Efrog Newydd, lle y bu hi farw o doriad y penglog. Yr oedd yn briod â William Toomey, Philadelphia. Lle y bu'n byw hyd nes iddynt symud i Granville.



HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboest- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574



CYHOEDDI CYFROL O LYTHYRAU AM BROFIADAU BYW GYDAG ISELDER

Cyhoeddir llyfr newydd gyda'r nod o fedru cynnig negeseuon o obaith i bobl sy'n byw ag iselder. Mae Llythyrau Adferiad

(Y Lolfa) yn gyfieithiad o'r fersiwn wreiddiol lwyddiannus The Recovery Letters, a golygwyd gan James Withey ac Olivia Sagan a gafodd ei gyhoeddi yn 2012.

Cyhoeddwyd y gyfrol i gyflwyno cyfres o lythyrau ar-lein gan bobl a oedd yn dod dros iselder at bobl a oedd yn dal i fod yn ei chanol hi. Wedi'u crynhoi'n gasgliad am y tro cyntaf ar gyfer pobl sy'n byw gydag iselder, mae'r llythyrau ysbrydoledig a didwyll hyn, sy'n seiliedig ar brofiadau personol, yn cynnig gobaith a chefnogaeth ac yn tystio bod adferiad yn bosib.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Asiantaeth Darllen (The Reading Agency) a llyfrgelloedd i sicrhau bod y cynllun Darllen yn Well ar gael ar draws Cymru. Fe lansiwyd Darllen yn Well Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gyfer dementia yn 2018, a llynedd fe lansiwyd Darllen yn Well Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gyfer iechyd meddwl. Nod Darllen yn Well ydi i roi cymorth i bawb deall a rheoli eu hiechyd a byw yn dda a rhoi cyngor i deulu a gofalwyr. Mae'r llyfrau i gyd wedi'u cymeradwyo gan weithwyr y maes iechyd. Mae'r Asiantaeth Darllen yn gweithio ar y cyd gyda Chyngor Llyfrau Cymru i sicrhau bod y llyfrau ar y rhestr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Meddai Helgard Krause, Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru "Mewn cyfnod o drafod cynyddol am broblemau iechyd meddwl, rydyn ni yn y Cyngor Llyfrau yn falch iawn o fod yn gweithio gyda'r Asiantaeth Ddarllen a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynllun Darllen yn Well Llyfrau ar Bresgripsiwn yng Nghymru. Mae pob un o'r llyfrau hunangymorth yn y gyfres hon wedi'u cymeradwyo gan arbenigwyr iechyd ac mae sicrhau bod deunydd safonol o'r fath hefyd ar gael yn y Gymraeg yn hollbwysig."

Bydd mwy o gyfrolau'n cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf, gyda'r llyfrau yn trafod pynciau pwysig fel ymwybyddiaeth ofalgarg, galar, gorbryder ac anhwylder bwyta. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.reading-well.org.uk/cymru

Mae Llythyrau Adferiad ar gael nawr (£9.99, Y Lolfa)

Treialu 'Wandersafe' yng Nghanolfan Fron Goch.

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw at gynllun arbennig rydym yn dreialu yng nghanolfan arddio Fron Goch ger Caernarfon i hybu annibyniaeth pobl sydd angen cefnogaeth neu oruchwyliaeth ac sy'n ddibynnol ar ofalwyr.

Mae technoleg 'Wandersafe' ar gael yn Fron Goch ac yn rhoi rhyddid i berson sy'n byw gyda dementia neu anabledd dysgu i gerdded o gwmpas y ganolfan yn annibynnol tra'n rhoi tawelwch meddwl i'w gofalwr eu bod yn ddiogel. Yn ogystal â helpu rhai sy'n byw gyda dementia ac anableddau dysgu mae'r cynllun yn rhoi seibiant i'w gofalwyr.


Mae'r system yn gweithio drwy roi synhwyrdd i'r person sydd â dementia neu anabledd, gyda'r gofalwr yn cael galwr ('pager'). Os yw'r person gyda'r synhwyrdd yn cerdded tuag at briffynedfa'r ganolfan arddio, bydd y galwr yn canu, ac yn hysbysu'r gofalwr.

Mae defnydd Wandersafe yn Fron Goch yn rhad ac am ddim.

Yn aml mae pobl sydd â dementia yn dweud sut mae colli eu hannibyniaeth yn cael effaith arnynt a sut y maen nhw yn gorfod bod yn fwy dibynnol ar ofal a chefnogaeth eraill o'u cwmpas. Gall hyn fod yn anodd i bawb – y nod felly trwy ddefnyddio technoleg fel 'Wandersafe' yw rhoi urddas, hyder a hunan-barch yn ôl i'r unigolyn.

Hoffwn eich annog i ymweld â Fron Goch i brofi'r offer a gofynnwn yn garedig i chi hyrwyddo'r system a rhannu'r wybodaeth gyda'ch cysylltiadau perthnasol. Dyma ffilm fer rydym wedi'i gynhyrchu i egluro y prosiect yn well <https://www.facebook.com/ArloesiGwyneddWledig/videos/600114070426891/>

Mae croeso i chi gysylltu gyda ni neu yn uniongyrchol gyda Fron Goch am fwy o wybodaeth.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaeth Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

SIOP A BECWS BRYNGWYN

Mewn ymateb i'r hanes gan Gareth Pritchard am siopau Tan y Coed a'r Bryngwyn, daeth un arall o gyn drigolion yr ardal i gysylltiad. Gyda diolch i Mrs Gwyneth Woodall, Aberdesach am anfon hanes Siop a Becws Bryngwyn. Yno y cafodd hi ei magu. Dyma sut mae'n adrodd yr hanes:

In the parish of Llanrug - a recently erected Dwelling House and Shop and Public Bakehouse situate in

Bryn Gwyn, Llanrug, which

Messrs. W. Dew & Son

are instructed by Mr. D.C. Pritchard, Bryngwyn,

to offer for sale by public auction

at the Royal Sportsman Hotel, Carnarvon

on Saturday, June 6, 1903 at 2.45 o'clock in the afternoon

BRYNGWYN, Parish of Llanrug

Lot 2

527a DWELLING HOUSE, SHOP & PUBLIC BAKEHOUSE with SPACIOUS YARD etc. and comprising 16½p. This is a capitably placed CORNER BUILDING situate in the populous and progressive district of Bryn Gwyn and distant about half a mile from Pontrhythallt station. It contains the following accommodation, viz: a spacious shop, parlour, kitchen, back kitchen and large bakehouse with Messrs, Morley and Co's Patent Hot Air Oven in capital working order. First Floor - Three Bedrooms. Outside - there is a Privy, Ashpit and Pigsty, Owing to its important and convenient position, a prosperous and lucrative Grocer and Public Bakehouse is carried on here. This lot possesses sufficient space to build another house fronting the road leading to Waenfawr.

(O gatalog yn Archifdy Caernarfon.)

Er hyn, yr oedd Mr. Pritchard yn dal i fyw yn y siop yn 1906. Yn 1914 a 1915 Mr. William G. Jones oedd yn byw yno.

Yn 1920, symudodd Mr. a Mrs. Ellis Jones a'u teulu yno. Rhentai Mr. Jones y siop gan Mr. Crystal o Gaernarfon. Daeth Betsi, a weithiai yn y becws; Nel, yn y siop; Catrin Ann, edrychai ar ôl yr anifeiliaid, a Jane yn gwnio yn y parlwr, yno gyda'u rhieni, Ellis ac Elizabeth Jones. Ai Ellis Jones (Ellis Dobie) o gwmpas yr ardal i ddanfôn ei fara gyda'i drol a cheffyl (Kit). Chwarelwr ydoedd cynt

Yn 1926, priododd Nel â John Jones, mab John Jones, 5 Bryngwyn Terrace, a symudodd yno gan barhau i weithio yn y siop. Ganwyd John Gwynfai i John a Nel yn 1930 a, hefyd, bu farw Betsi yn yr un flwyddyn yn ddim ond 45 mlwydd oed. Ar yr un pryd, bu farw Mr. Crystal ac, o ganlyniad, 'roedd ei weddw eisïau gwerthu'r siop. Nid oedd Ellis ac Elizabeth Jones eisïau ei phrynu gan eu bod dros saithdeg oed, felly, penderfynodd John a Nel brynu'r busnes. Yn dilyn eu hymddeoliad, symudodd Ellis ac Elizabeth Jones i fyw i'r Ceunant ac wedyn, i Bwlch.

Yn 1936, collodd John a Nel eu mab, John Gwynfai, ond ganwyd merch, Gwyneth, iddynt yn 1938. Trigai eu nith, Lis Jones, â hwy, yn ogystal â gweithio yn y siop. Mae ganddi hi gof da am gael cyflog o 3/6 yr wythnos a'i chadw.

Adeiladwyd siop Bryngwyn gan Mr. David Charles Pritchard yn 1903 (fe'i adnabuwyd fel 'Dafydd 'Raber'). Yr oedd yn byw yn y siop yn 1906 yn ôl cofrestr etholiad er iddo geisio gwerthu'r busnes yn 1903:

Yn 1928, priododd Jane â Lewis Roberts, Minafon, Tanycoed, a chadwent hwy siop, busnes glo a phetrol.

Yr oedd y siop yn brysur iawn yn ystod y rhyfel gyda'r 'rashions'. Bu'r becws yn brysur iawn yn ystod y cyfnod yma hefyd gan ei fod yn cyflenwi bara i ysgol babyddol ym Mryn Bras. Arhosai efaciwis o Lundain yn y tŷ hefyd.

Yn 1948 gwerthwyd y siop i Mr. a Mrs. Mothersole a'u dau fab a symudodd John a Nell i fyw i Gaernarfon. Nid oedd na thrydan nac ystafell ymolchi yn y tŷ yn y cyfnod yma. Prynwyd y busnes, yn ddiweddarach, gan Mr. a Mrs. Morris Williams. Yna, yn 1965 fe'u prynwyd gan Mr. a Mrs. Martin Gardiner a deil y teulu yno. Caeodd y siop yn 1965 ond deil y becws yn llwyddiannus iawn.

Diddorol yw'r cyfeiriad at y perchennog cyntaf, sef Dafydd 'Raber. Yn ol pob tebyg, adeiladwyd y siop a'r becws gydag arian a dderbyniodd fel iawndal am golli ei fusnes yng Nghaernarfon, sef cario pobl yn ôl ac ymlaen mewn cwch ar draws aber yr afon Seiont. Pan adeiladwyd Pont yr Aber, bu'n rhaid i Gyngor Tref Caernarfon dalu iawndal iddo am golli ei fywoliaeth.



GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS

DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Clwb Pentir

Yng nghofnodion Festri Blwyfol Llanddeiniolen, a drafodwyd y mis diwethaf, soniais am daliadau i Glwb Pentir, a holi a oedd yn rhyw fath o gymdeithas elusengar. Ddaeth dim ateb, ond cysylltodd Eifion Roberts, Llanberis gyda chopi o ddwy dderbyneb a welodd ar e-bay. Maent yn dangos y taliadau a wnaeth Assheton Smith, Y Faenol yn 1904 tuag at Dreth Tlodion Pentir

PARISH OF PENTIR.
(Bangor and Beaumaris Union.)
The 13 day of July 1904
RECEIVED OF M^r E. W. Assheton Smith Esq.
the sum of Two pounds
fifteen shillings and pence in respect of
the Poor Rate of the above Parish, viz :
Assessment Number 189 to 193
Rate made the 31st day of May, 1904.
At 2s. in the £ on £27-10-0 Rateable Value of Buildings and other Hereditaments not being Agricultural Land... £ 3 15 -
At 1s. in the £ on £ Rateable Value of Agricultural Land ... £ 2 3 -
Arrears ... £
Allowance to Owner at per cent. ... £
Received from Owner ... £ 2 15 -
Signed J. W. Jones Collector.

PARISH OF PENTIR.
(Bangor and Beaumaris Union.)
The 13 day of July 1904
RECEIVED OF M^r E. W. Assheton Smith Esq.
the sum of one pound
shillings and pence in respect of
the Poor Rate of the above Parish, viz :
Assessment Number 186 to 188
Rate made the 31st day of May, 1904.
At 2s. in the £ on £200-0-0 Rateable Value of Buildings and other Hereditaments not being Agricultural Land... £ 20 1 -
At 1s. in the £ on £ Rateable Value of Agricultural Land ... £
Arrears ... £
Allowance to Owner at per cent. ... £
Received from Owner ... £ 20 1 -
Signed J. W. Jones Collector.

PARISH OF PENTIR.
(Bangor and Beaumaris Union.)
The 13 day of July 1904
RECEIVED OF M^r E. W. Assheton Smith Esq.
the sum of Two pounds
eight shillings and pence in respect of
the Poor Rate of the above Parish, viz :
Assessment Number 194
Rate made the 31st day of May, 1904.
At 2s. in the £ on £200-0-0 Rateable Value of Buildings and other Hereditaments not being Agricultural Land... £ 2 8 -
At 1s. in the £ on £ Rateable Value of Agricultural Land ... £
Arrears ... £
Allowance to Owner at per cent. ... £
Received from Owner ... £ 2 8 -
Signed J. W. Jones Collector.

Co-op Deiniolen.

Gan Gwilym Williams (Deiniolen gynt) y daeth gwybodaeth am hen siop y Co-op yn y pentref.

'Roedd y Co-op gwreiddiol yng nghefn y siop bresennol, sef ar y dde wrth fynd ar hyd Tabernacle Street (neu Cae'r Tai ar lafar). Ar ôl i'r Co-op newydd gael ei hadeiladu 'roedd yr hen un yn stordy, gyda rhewgell fawr ynddi yn ystod y 1960'au (a wedyn o bosib). Mae yn dal i gael ei defnyddio fel stordy y siop bresennol drwy fynd trwy ddrws yng nghornel dde y siop. 'Roedd drws yn agor i/o Tabernacle Street ond mae hwnnw wedi ei gau erbyn hyn. Un neu ddau dŷ i ffwrdd roedd y Prince of Wales, hynny ydi, y pen lle mae y lôn yn troi i'r maes parcio presennol. Yng Nghyfrifiad 1901 mae 1, 2 a 3 Tai Prince, wedyn y Prince of Wales a'r nesa wedyn ydi 35 a 36 New Street. 36 New Street ydi cyfeiriad y shop bresennol, a dyna mae'n debyg oedd cyfeiriad y Coop 'newydd'. Gan mai 34 New Street ydi y tŷ uchaf ar y gyffordd â Tabernacle Street mae'n bur debyg for 35 a 36 wedi mynd i wneud lle i'r Co-op newydd yn y 1930'au.

Daeth gwybodaeth ddiddorol gan Eifion Roberts, Llanberis, hefyd – nid am y siop yn Neiniolen, ond am yr enw. Tra'n chwilio cofnodion hen gyfrifiadau, daeth ar draws tai yng Ngallt y Foel o'r enw Coperative, a hynny yn 1881 ac yn 1891. Gan fod mwyafrif y tai ar yr allt yn cael eu galw yn Gallt y Foel bryd hynny, anodd iawn eu lleoli. Yn 1881 daw'r enw Glanrafon yn cael ei ddilyn gan Coperative – un tŷ. Yn 1891 daw'r enw Bryntirion, yna Gallt y Foel a Coperative – dau dŷ - yna Gallt y Foel eto, a Top Gallt y Foel. Dyna'r unig gliwiau ynglŷn â'u lleoliad.

Felly dyma gais i chi drigolion yr ardal honno rhwng Deiniolen a Dinorwig : oedd eich tŷ chi ar un adeg yn cael ei alw yn Coperative ? A pham hynny?

FFISIO THERAPI ERYRI
PHYSIOTHERAPY

Asesiad a thriniaeth arbenigol a fforddiadwy ar agor nawr.
Specialised and affordable assessment and treatment available.
Cyslltwch am fwy o fanylion
Contact for further information:
Facebook: @ffisioeryriphysio
Epost / E-mail: info@ffisio-eryri-physio.co.uk
Ffôn 07387390465
Canolfan Ddringo Beacon Climbing Centre
Stâd Diwydiannol Cibyn Industrial Estate
Caernarfon. LL55 2BD
www.fffisio-eryri-physio.co.uk

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Tair marwolaeth drwy dân

Ganed Robert Jones yn Llanddeiniolen, a phriododd Grace Owen o Niwbwrch yn Eglwys Llanrug yn 1842. Cawsant wyth o blant. Certiwr oedd Robert wrth ei alwedigaeth. Bu Grace farw yn 1873 gan adael Robert yn ŵr gweddw yn byw ei hun yn Gongl Ddu, Saron, Bethel. Tua diwedd 1884 neu ddechrau 1885 bu farw dan amgylchiadau truenus. Dyma'r adroddiad a ymddangosodd yn y Caernarfon and Denbigh Herald ddiwedd Ionawr 1885:

On Thursday last Mr J.H.Roberts, Caernarfon, held an inquest on the body of Robert Jones, Gongl Ddu, Bethel, Llanddeiniolen, who had met his death by burning. It appears that one evening about a month ago he was drinking at Gors Bach Tavern and in returning home put a lighted pipe in his pocket causing his clothes to ignite and his side to be severely burnt. For a month after this occurrence he remained in his house in Saron with the door locked and without any food to eat and at last expired. The jury returned an open verdict.

Yn 1902 ganwyd plentyn ieuengaf John a Catherine yn y Bryngwyn, a'i alw yntau yn John ar ôl y mab a gollwyd. Y John hwn oedd tad Gwyneth, a ddaeth i berchnogaeth y Becws yn ddiweddarach.

AVW Advanced Vehicle Workshop Arbenigwyr mewn ceir VW,
Audi, Seat, Skoda & Porsche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559**

BOSCH Service Car Service
For everything your car needs.
MOT TESTING STATION

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
 CENTRAL GARAGE
 LLANBERIS
 FFON- (01286) 870202

Un hysbyseb yn unig					Cyfres o 4 hysbyseb neu fwy			
Colofn (lled 5 cm)	Uchder 8 cm	Uchder 16 cm	Uchder 24 cm	Uchder 36 cm	Colofn (lled 5 cm)	Uchder 8 cm	Uchder 16 cm	Uchder 24 cm
1	£24	£48	£72	£96	1	£12	£24	£36
2	£48	£96	£144	£192	2	£24	£48	£72
3	£72	£144	£216	£288	3	£36	£72	£108
4	£96	£196	£288	£384	4	£48	£96	£144

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

Pantri



Doedd hi mor diwrnod gorau i lansio busnes a Storm Dennis yn hyrddio drwy'r pentref, ond roedd croeso a chlydwch yn Y Pantri. Caryl Emlyn Baylis, merch Emlyn Baylis a Hayley Griffiths sydd bellach mewn gofal o'r Pantri. Mae'n enedigol o'r pentref, ac yn byw bellach yng

Nghwm y Glo. Mae ei nain, Liz Griffiths yn dal i fyw yn Stryd Turner, ac o siop nain arall, y ddiweddar Dilys Baylis, Meirionfa, Stryd Goodman y daeth yr arwydd 'Lions Tea'. Ond nid te yn unig sydd ar gael, ond prydau ysgafn o fwyd hefyd. Lle clyd a chysurus – storm neu beidio.

Eglwys Sant Padarn Cynhelir Swper Gŵyl Dewi yn Eglwys Sant Padarn ar nos Sul, Mawrth 1af, am 7 o'r gloch, yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys. Tocynnau £10 i gynnwys Cawl Cennin, bara brith, teisen gri, gwin a te neu goffi. Enwau i Dilys Roberts 01286 871423, neu unrhyw un o aelodau'r Eglwys.

Diolchiadau Dymuna teulu'r diweddar Clifford Davies ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd tua atynt yn eu profedigaeth o golli Priod, Tad a Thaid annwyl iawn.

Diolch i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth, dydd yr angladd. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Cliff, a roddir i Eglwys Crist Llandinorwig, Ward Moelwyn, Ward Peblig, a Meddygfa Llanberis.

Cymdeithas Capel Coch Nos Fawrth, Chwefror 11eg, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Dr Elin Tomos, Nant Peris, am "Ferched y Chwarel". Cafwyd darlun byw iawn ganddi o'r modd yr oedd rhai sylwebyddion yn disgrifio gwragedd y chwarelwyr ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Clywsom y bydd cyfrol sy'n seiliedig ar waith ymchwil Elin yn y maes hwn, yn dod o'r Wasg yn fuan, y Gwanwyn hwn gobeithio.

Gwasanaethau Capel Coch

Mawrth 1af am 10yb: Parch Gwyndaf Jones
8fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog
15fed am 10yb: P arch Eifion Wyn Williams
22ain am 10.30: Oedfa Deulu
29ain am 10yb: Parti Bytholwyrdd
Ebrill Sed am 10yb: Oedfa Yng Ngofal Yr Aelodau
12fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

Gwasanaethau Capel Jeriwsalem (oll am 2 o'r gloch)

Mawrth 1af: Parch John Pritchard
15fed: Parch Huw Pritchard, Llangefni
22ain: Mr Glyn Owen
29ain: Mr John Roberts, Waunfawr
Ebrill Sed: Parch Dewi Morris, Porthmadog

CAU'R DRWS



Mae yna rhywbeth terfynol mewn cau drws yn enwedig am y tro olaf. Dyna fu ein profiad yma ym Methel gyda Cled a Susan yn cyflawni'r ddefod drist yn y Siop/ Post ar ddydd cyntaf y mis bach. Yr oeddent wedi cynnal y busnes ers 14 o flynyddoedd. 14 o flynyddoedd o godi ymhell cyn cŵn Caer i wneud yn siwr fod ein bara a phapur newydd yn barod yn eu priod le. Y cacennau, pastiod ffres yno. Ac wrth gwrs wedi stocio silffoedd oedd mor gyfleus i ni pan oeddem wedi anghofio eu cael ym Morrisons a Tesco.

Yna wrth gwrs cau y Post. Am Bost Pentrefroedd yr holl agweddau o waith y Post i'w cael yno. A chydâ phrinder y Swyddfeidd Post roedd pobl o gylch ehangach yn dod yno am eu pensiynau yn fwyaf penodol.

Ie, Siop a Phost. Ie, busnes. Ond roedd cryfder arall i'r lle arbennig hwn. Dyma Bapur Bro o adeilad. Ers talwm, cawn wybod newyddion y pentref boed dda, drwg, am fod rhywun "wedi dweud yn capal." Yma ym Methel mor aml deuai'r wybodaeth am fod rhywun wedi "dweud yn Post." Dyma un o'i gryfderau. Oedd, caed ambell i stori 'flasus' neu 'roedd plismyn yn' Ond hefyd gwybodaeth oedd yn golygu ein bod yn gallu cadw golwg ar y bregus hefyd. Deuai rhywun i'r Post a dweud "roedd na ambiwlans yn ..." neu "mae ... wedi ei chymryd yn wael", neu rhyw arwydd ar y wal bod rhywbeth wedi ei golli. Ie, mangre bwysig oedd wal Siop Cled. Yno yr hysbysebwyd gweithgareddau y pentref. Yno hysbyseb os oeddech eisiau saer, plymar lleol.

Man sgwrs, man cymdeithasu, man rhannu gwybodaeth. Man o orfod cael croen eliffant os oeddech yn cefnogi Man. U. yn enwedig gyda'r Sgowsars yn gwneud mor dda y tymor yma!

Gwerthu raffls ar gyfer achosion da neu glybiau chwaraeon y pentref. A noddi neu gyfrannu at pob mudiad hefyd. Yn gefn pan oedd angen codi arian i gefnogi rhywun o'r pentref a welodd gyfnodau anodd. Ie, nid am y busnes y cofir Siop Cled/ Susan yn bennaf. Yng nghau y drws rydym yn colli un o elfennau pwysigaf unrhyw bentref sef man i gyfarfod a man i drosglwyddo gwybodaeth sydd yn aml yn ein cadw yn uned. Man ble roedd yr unig yn cael cwmniaeth am gyfnod ac yn teimlo elfen o berthyn.

Ar ran y pentref rwy'n diolch i Cled a Susan a'r genod am eu gwasanaeth i ni dros y cyfnod hir hwn o 14 blwyddyn. Rydym eisioes yn gweld eu colli. Yr un modd hoffai Cled a'r teulu hefyd ddiolch drwy gydnabod cefnogaeth y 'ffyddloniaid' dros y cyfnod.

01.02.2020

Oes arall, llawn oedd Saron
o siopa' a lanwa'r lôn
yno'n drwch ar stepan drws –
ystyriwch, stryd yn storws.
Lleol 'cig swpar chwara',
o hel prês cael papur wal.
Llawn chwant, deuai'r plant â'u ple,
dod amal, dod â'u dime.
Oes o fraw, oes clecs y fro –
ennyd, roedd trafod yno;
eu hofnau, hwyl, caed cofnod,
hyd y daith, eu mynd a dod.

Mae sbeit ym mrath y mis bach
heb allwedd i siop bellach.
Di-gynnwrf yw Stryd Ganol
yn y rhes does un ar ôl;
dim un torth, stamp, dim ond tai
heb fantell hyba fintai.
Ym Methel, 'fory welir
ond tai a thai hyd ei thir?

G W A S A N A E T H TEITHIOL

Yn dilyn cau y post bydd gwasanaeth yn cael eu gynnig yn wythnosol ar bawniau Mercher (3.15 – 4.15) a Gwener (3.30 – 4.30) ar dir y Neuadd Goffa. Cynnigir y gwasanaeth o fan deithiol y Swyddfa Bost.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn a theulu y diweddar 'Bill' Bailey, Anthorn yn eu colled. Un o gymeriadau y pentref oedd 'Bill', parod ei sgwrs â'r ddawn arbennig yna i ddenu gwên drwy adrodd stori. Yr un modd, Gwyn Edwards a'r teulu o golli gwraig, sef Lynn draw yn Llandwrog. Cofiw am y ddau pan oeddent yn byw yn Seion ac yn aelodau poblogaidd yn y gymuned glos honno.

'Maes o boen yw y mis bach.'

TYNFA'R NEUADD

Ennillwyr tynfa Chwefror oedd:

£25 : John Jones, Stâd Eryri

£15 : Val Griffiths, Tan-y-Buarth

£10 : Wendy Grail, Y Ddôl

CYFLWR PALMENTYDD / GWTERYDD

Mae cryn gwyno am gyflwr y palmentydd. Yr un modd gwelwyd llawer o'r gwterydd

yn llenwi â dail a sbwriel a'r dŵr yn gorlifo. Ers dau fis bellach mae cynghorwyr Bethel ar y Cyngor Cymuned wedi cyfeirio at y diffygion hyn ac mae'r Clerc fwy nag unwaith wedi cyfeirio y gŵyn at yr awdurdod priodol sef y Cyngor Sir. Oni buasai yr hen lengthmyn dal ar gael yn yr oes yma o doriadau.

LLONGYFARCHIADAU
i Richard Lloyd Jones ar gipio Cadair Llanegryn, Meirion am awdl ar y testun 'Dyffryn'.

GAS O NOSON

Hoffai Cymdeithas Rien/ Athrawon yr Ysgol ddiolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd y noson gyda Phil Gas a'r Band yn y Neuadd Goffa. Diolch i'r ymdrech codwyd swm anrhydeddus ar y noson fydd yn cefnogi yr agweddau addysgol amrywiol yn yr ysgol arbennig hon.

Yr un modd diolch gan Bwyllgor Gweithgareddau Capel y Cysegr am y gefnogaeth dda i'r Noson Chwilen ddiweddar a hynny ar noson stormus iawn.

Dymuniadau gorau i Mary Wyn Jones, Y Ddôl, sydd wedi derbyn llawdriniaeth mewn Ysbyty yn Lerpwl.

Parhad BETHEL

MERCHED Y WAWR



Roedd arogl fendigedig yng nghyfarfod Chwefror pan ddaeth Vicky Hodge draw i arddangos ei dawn yn creu gwahanol sebonau, ac fel y sefydlodd fusnes 'The Soap Mine' ym Meddgelert. Fel hobi y dechreuodd y ddawn gyniwaer ac yna trwy hir ddarlenn a mireinio crefft trwy arbrofi datblygodd yn greu busnes. A magu dwy ferch fach ar yr un pryd Erbyn heddiw mae'r ystod o sebonau, sy'n fegan ac yn garedig iawn i'r croen ar gael mewn un ar bymtheg o siopau. Ymysg y mannau lleol mae siop 'Slate and Things' yng Nghaernarfon ac yn Storiell ym Mangor.

Wedi'r cyflwyniad a'r arddanghosiad manteisiodd sawl aelod i brynu rhai o'r danteithion sawrus. Gellir hefyd eu prynu ar-lein yn www.thesoapmine.co.uk.

Cafwyd yr adroddiad misol o weithgareddau'r mudiad gan Mair Read ein llywydd. Cyfeirwyd at sefydlu Clwb Gwawr yng Nghaernarfon a ddenodd 50 i'r cyfarfod sefydlu. I gefnogi elusen Pwyllgor Anabl MYW byddwn yn noddi Eirlys Williams yn ei chyfnod o Ddistawrwydd Noddedig.

Anfonwn ein cofion annwylaf at Mary Wyn Jones wedi ei chodwm drom yn ddiweddar. Yr un modd i Anwylid Jones a gollodd ei chyfnithier yn ddiweddar.

Yng nghyfarfod Mawrth (Mawrth 11) byddwn yn ymweld a Halen Môn ac yna ymlwybro draw i'r Anglesey Arms ym Mhorthaethwy i ddathlu Gŵyl Ddewi. Bydd y bws yn gadael Tan-y-buarth am 5.15pm ac yn codi yn y mannau arferol.

Ysgol Gynradd Bethel yn ymweld a'r Senedd



Siân Gwenllian AC Arfon yn croesawu disgyblion Ysgol Bethel i'r Senedd yng Nghaerdydd ar eu hymweliad diweddar.

OEDFAON MAWRTH

CYSEGR (10am) : 1/3 Dennis Davies 8/3 Gweinidog 15/3 Dafydd Iwan 22/3 Gweinidog 29/3 Parch. Gwenda Richards

SARON (2pm) : 1/3 Dafydd Coetmor Williams 8/3 Gwynfor Williams 15/3 Philip Barnett 22/3 Richard Gillion(S) 29/3 Gwynfor Williams

BETHEL (10am) : 1/3 Richard Morris Jones 8/3 Glyn Owen 15/3 cledwyn Williams 22/3 Gwynfor Williams 29/3 DG

CLWB BRO BETHEL

Gyda absenoldeb Wil Lloyd Davies oherwydd salwch camodd y Cyn Archifydd Sirol Gareth Heulfryn Williams i'r bwlch. Braf cyhoeddi fod y safon uchel o gynnwys y siaradwyr gwadd wedi ei gynnal. Mae gwledd yn ein disgwyl yn fisol. Wedi olrhain ei yrfa cynnar yn y Brifysgol ar y Bryn ac yna fel athro Saesneg am gyfnod byr yn Ysgol Glan Clwyd, symudodd i'w briod faes. Dechrau yn awyrgylch 'gartrefol, wladaid' Sir Feirionydd yn yr archifyd yn Nolgellau. Teimlo fod rhyw gefnogaeth ac yn wir statws i gasglwr a chofianydd hanes y Sir. Sir ac iddi ei thraddodiad Cymreig â gofal mawr wedi ei roi i gadw y dogfennau, llyfrau etc.

Soniodd am gyfnod y Llysoedd Chwarter ble'r roedd lleygwyr lleol yn 'farnwyr' ar eu cyfoedion.

Yna y naid fawr i'r Archifyd yng Nghaernarfon, y man del-frydol i un oedd yn byw ei faes ddewisiedig. O'i gwmpas roedd hanes lleol a chenedlaethol yn byrlymu. Y Llysoedd Barn, Y Chwareli, Y Tai Bonedd, Y Wasg yn Nhref yr Inc. Cyfeiriodd fod y ddogfen hynaf yn yr Archifyd yn dyddio yn ôl i flynyddoedd 1160+. Anhygoel. Ein gwir hanes. Yna y siom ryfeddol. Roedd dogfennau cyn hynny - cyfnod y Tywysogion Cymraeg (a Tywysogion Gwynedd y mwyaf cadarn wrth gwrs) yn cael eu cadw mewn ystafell hollol anaddas yng Nghastell Caernarfon. Stafell wlyb, ddiolau. Roedd y dogfennau wedi eu sgwenu ar femrwn - croen anifail. Dros y canrifoedd bu dirywiad rhyfeddol oherwydd y gwlybanaeth. Erbyn 1860 roedd y fath ddrewdod yn dod o ddirywiad y dogfennau. Llawer o gwyno. Yr ateb. Adeiladu pont blanciau dros y Fenai. Llwytho'r 'drewdod' i

ferfa a'u tollti i ddyfroedd y Fenai. Meddylwch. Y trysorau, ein hetifethiaeth dan y don. A'i hyn roedd Kirsty Williams ein Gweinidog Addysg yn y Cynulliad yn cyfeirio ato pan ddywedodd yn ddiweddar 'na fu gan Gymru hanes'. Rhyfeddol. Di-hanes di-genedl.

Cyfeiriodd at gyflwr trwsiadus iawn o gofnodi dogfennau Chwarel Dinorwic, ac yna tipyn o sbeis wrth gyfeirio at Stâd y Faenol. Pan werthwyd y Stâd cynnigiodd y perchnogion newydd o Gaernarfon y doreth o ddogfennau a llythyrau yn ymwneud a'r Stâd. Roedd llond stabl yno wedi eu gosod yn drefnus. Ond pan ddaeth lori o'r archifyd yno i'w casglu roedd yn amlwg fod golygu a chwynnu wedi bod ac roedd nifer o'r dogfennau yn enwedig llythyrau wedi diflanu. Roedd yn hysbys bod nifer o'r teulu brenhinol gan gynnwys y Dywysoges Margaret yn ymwelwyr cyson. Caed sawl awgrym ar lawr gwlad am riantwch nifer o 'bartion' y Faenol. Ai i warchod y cyfrinachedd y 'diflanodd' y dystiolaeth hynod ddifyr yma. Dywedodd un wrthyf fod cofnod o nifer o ddogfennau y Faenol wedi eu llosgi ar dir Tŷ Mawr, Llanddeiniolen.

Diolchodd Mair Read i Gareth ar ran y clwb. Pnawn difyr.

Fel sawl blwyddyn bellach cafodd aelodau'r Clwb wahoddiad i Gyngerdd Gwyl Dewi yr Ysgol ar Chwefror 25. Unwaith eto roedd gwledd o ddathliad yn ei disgwyl. Diolch i'r Prifathro a'r staff am y paratodau a'r hyfforddiant. Gan fod mis Mawrth felly yn wâg, bydd y Swyddogion wedi trefnu cyfarfod ar gyfer Mawrth 3ydd ac fe hysbysebir yn y ffordd arferol.

BANC BWYD

Diolch yn fawr iawn i chwi gyfranwyr selog. Nid oes unrhyw gyfraniad rhy fach.

GWAHODDIAD?

Mae cynhyrchydd y gyfres radio Talwrn y Beirdd yn gofyn i fudiadau, clybiau neu sefydliadau lleol os buasant yn hoffi gwahodd y rhaglen. Fe gaiff ei recordio ar nos Fawrth fel arfer ac fe fydd dwy raglen yn cael eu recordio - 4 tim yn ceisio plesio y Meuryn Ceri Wyn Jones. Nifer o'r timau yn cynnwys Prifeirdd. Dwy awr o adloniant pur gyda mynediad yn rhad ac am ddim. Os oes diddordeb gellir cysylltu drwy Talwrn y Beirdd, Canolfan y B.B.C. Bryn Meirion, Bangor.

Pencampwyr Gogledd Cymru



Mae genod Ysgol Brynrefail wedi ei gwneud hi eto ac wedi llwyddo i ennill Pencampwriaeth Pêl-rwyd Gogledd Cymru oedd wedi ei drefnu gan yr Urdd yng Nghanolfan Brailsford ar ddydd Iau,

Ionawr 16eg. Chwaraeodd y tîm o enethod blwyddyn 7 /8 yn arbennig gan guro Ysgol Maes Garmon yn y ffeinal 7-5. Daethant yn bencampwyr allan o 20 o ysgolion! Gwych!

Disgyblion blwyddyn 7 yn cydweithio â CydYnni



Ar ddydd Mercher, Ionawr 15 daeth Carwen o CydYnni draw i gynnal prynhawn o weithgareddau yn ymwneud ag egni adnewyddadwy a chynladwyedd gyda grŵp o ddisgyblion blwyddyn 7. Mwynhaodd pawb y gwaith gan gynnwys y cyfle

i ddfnyddio'r camerau thermol FLIR o gwmpas yr ysgol. Bu'n bawn hynod o ddifyr ac yn gyfle gwych i ddysgu am bynciau pwysig dros ben.



Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2019



Eleni cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar ddydd Iau, Rhagfyr y 12fed ac unwaith eto roedd blas Nadoligaidd ar rai o'r cystadlaethau. Yr oedd diwrnod yr Eisteddfod yn benllanw ar waith paratoi ac ymarfer ers wythnosau a'r chweched dosbarth wedi bod yn hynod o brysus yn hyfforddi ar gyfer y gwahanol gystadlaethau. Y beirniaid eleni oedd Elen Hughes, Gethin Parry ac Ifan Pritchard. Dywedasant eu bod wrth eu boddau yn ystod y dydd a gyda'r nos yn gwyllo'r gwahanol gystadleuwyr talentog a'u bod wedi mwynhau'r awyrgylch hwyliog yn fawr iawn. Beirniad cystadleuaeth y Gadair a Medal yr Ifanc oedd Casia Wiliam.

Un o gystadlaethau mwyaf poblogaidd y bore oedd y sgetsys a phawb yn mwynhau'r actio a'r hwyl. A hithau'n ddiwrnod yr etholiad roedd sgets tŷ Eilian yn cynnwys babis o'r enw Boris, Jeremy a Hywel! Er hyn sgets Eryri oedd yn fuddugol diolch i sgript ac actio arbennig Rhyddian Williams. Ef enillodd Tlws Emma Bernard am y perfformiad actio neu lefaru gorau ar hyd y dydd.

Cafodd y gynulleidfa lawer o hwyl pan ddaeth y caneuon ysgafn i'r llwyfan. Roedd cân wreiddiol pob tŷ yn dda iawn ac Eryri ac Eilian gafodd fynd ymlaen i berfformio gyda'r nos gyda cân Eilian am berthynas rhwng bachgen ysgol o Frynrefail a merch o Syr Hugh Owen yn ennill! Daeth y partion canu iaith dramor i'r llwyfan i ganu'r gân Sbaeneg 'Macarena' yn llawn egni. Yr enillwyr oedd Eilian.

Cân y parti bechgyn eleni oedd 'Cymru, Loegr a Lanrwst' – cyfle i'r hogia ymddwyn yn cŵl! Tŷ Eilian unwaith eto aeth a'r wobwr gyntaf. Canu 'Haf 2013' gan Fleur de Lis wnaeth y genod yng nghystadleuaeth y parti merched a thŷ Eilian ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth hon hefyd.

Parhaodd yr hwyl pan ddaeth y grwpiau dawnsio disgo i'r llwyfan. Gwelwyd llawer o wahanol fathau o ddawnsio ond y grŵp buddugol a berfformiodd yn broffesiynol iawn oedd genod tŷ Elidir.

Cafodd pawb ddaeth i wyllo'r Eisteddfod yn y nos wledd ac mae'n anodd iawn dewis a dethol yr eitemau gorau. Yr hyn sy'n aros yn y cof yw balchder Owain Roberts blwyddyn 9 a Twm Herd blwyddyn 13 wrth ennill Medal yr Ifanc a'r Gadair.

Daethynson i ben gyda phedwar côr caboledig iawn yn ymddangos ar y llwyfan i ganu 'Dwylo Dros y Môr' ac Eilian unwaith eto yn fuddugol. Mae'n debyg bod dros dri chant o hanner o ddisgyblion wedi ymddangos ar y llwyfan, cymaint oedd niferoedd pob côr a pharti. Y canlyniad terfynol oedd Eilian yn gyntaf gyda 1881 o farciau, Elidir yn ail â 1625 marc, Gwyrfaï yn drydydd gyda 1481 marc ac Eryri yn bedwerydd gyda 1392 o farciau.

Diolch i gapteiniaid y tai i gyd, y chweched dosbarth am hyfforddi, yr holl ddisgyblion a gymrodd ran a'r athrawon a fu wrthi'n trefnu a pharatoi. Ymlaen yn awr at Steddfod 2020!

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019
Tacuso'r Pentrefi

Penderfynwyd y bydd y Cyngor Cymuned yn archebu gwasanaeth torri gwair
Cyngor Gwynedd ar gyfer 7 toriad y flwyddyn (gwasanaeth torri a casglu) ar
gyfer ystadau Minffordd, Nant y Glyn a Dolafon. Mae hyn yn codi oherwydd i'r
cyngor gael nifer o gwynion am gyflwr o flaen mynediad y stadau.

Y maes parcio

Penderfynwyd gofyn i'n contractwr lefelu concriid yn y maes parcio yn dilyn cwyn
ei fod yn ei gwneud yn anodd a pheryglus i bobl gerdded.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd)

Cyllideb Draft Llywodraeth Cymru

Ar hyn o bryd 'does dim gwybodaeth am faint fydd yn cael ei glustnodi i
Lywodraeth Leol. Ond mae'n ymddengys eu bod yn rhoi mwy i'r Awdurdodau
Iechyd a £150miliwn i'r Adran Drafnidiaeth i hybu di-garboneiddio.

Arbedion

Mae Cyngor Gwynedd yn disgwyl y bydd bwlch o rhwng £2 filiwn a £7 miliwn
yn dilyn y setliad terfynol ac wedi penderfynu cyllidebu am £2miliwn o fwllch.
Golygai hyn 0.78% oddi ar gyllideb pob Adran. Mae'r Adrannau wedi gwneud eu
cynlluniau i ymateb i hyn. Os fydd y bwlch yn fwy na £2miliwn, yna bydd rhaid
defnyddio balansau a/neu codi'r Dreth Cyngor.

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019

Bydd y Bil:

- yn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru
i bleidleisio mewn etholiadau i gynghorau.

- yn sicrhau bod cynghorau'n annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth
leol

- yn sicrhau bod cynghorau'n agored ac yn dryloyw

- yn sicrhau bod yr arfau a'r pwerau gan gynghorau i'w galluogi i weithio'n dda
gyda'i gilydd.

Casglu Sbwriel

Bu tipyn bach o drafferth hefo symud i'r rota newydd. Casgliadau bagiau du yn
cael eu methu.

Llwybr aml bwrpas o Pontrug i Llanrug

Bydd hwn yn rhan o gynllun mwy, sef llwybr o Lanberis i Gaernarfon, a chafwyd
cyfarfod hefo swyddog y Cyngor gyda'r gobaith o gael datrysiaid i'r llwybr i gyd.
Ond o bosib, bydd gwneud y llwybr lawr y briffordd o Llanrug i Pontrug yn
digwydd o flaen y darn o Pontrug i Gaernarfon.

Parcio Cwm y Glo

Cafwyd cyfarfod hefo swyddogion y Cyngor er mwyn lleihau y llinellau melyn
yn ymyl y cae chwarae er mwyn galluogi mwy o geiri barcio yn y pen yna o'r pentref.
Cau y ciosg ffôn ger siop y 'Sbar' yn Llanrug

Adroddwyd fod BT wedi cysylltu ac yn y broses ymgynghori ynghlyn a'u bwriad i
gau'r ciosg ger y Sbar. Roedd ffigyrau wedi eu paratoi yn dynodi mae dim ond 14
galwad oedd wedi eu gwneud o'r ciosg yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020

Cyllideb ar gyfer 2020/2021.

Eglurwyd ambell newidiadau i'r gyllideb gyfredol ar gyfer 2019/20, a awgrymwyd
gan y Pwyllgor Cyllid i'r Cyngor gymeradwyo ac aethpwyd ymlaen i ystyried y
newidiadau oedd eu hangen ar gyfer cyllideb 2020/21. Penderfynwyd
derbyn yr adroddiad a'r addasiadau i'r gyllideb fel yr argymhellwyd.

Y braesept ar gyfer 2020/21.

Penderfynwyd codi praesept o £60,000 ar gyfer 2020 / 2021

Strategaeth corfforaethol i'r cyngor ar gyfer y dair blynedd nesaf sydd yn sefydlu ei
weledigaeth a'i anghenion ar gyfer y dyfodol

Adroddwyd gan y clerc fod y broses o osod y braesept angen ei edrych arno. Yn
ddelfrydol fe ddylai y broses o osod y praesept gychwyn o gwmpas mis Hydref/
Tachwedd gyda aelodau o'r pwyllgorau yn paratoi eu nod ac amcanion ar gyfer y
dyfodol. Nodwyd nad oedd gan y cyngor strategaeth corfforaethol ar gyfer y dair
blynedd a cytunwyd i'r Cyngor gychwyn y broses ar gyfer y dair blynedd nesaf.
Tendr ar gyfer gwaith torri gwair ar gyfer y fynwent, meysydd chwarae a llwybrau
cyhoeddus.

Adroddwyd fod y tendrau wedi dod i law a fod y dyddiad cau bellach wedi
mynd heibio. Yn sgil y niferoedd o brisiau a dderbyniwyd, penderfynwyd i anfon
manylion y prisiau i'r aelodau ar gyfer pob elfen o'r gwaith. Yr aelodau wedyn i
anfon eu sgôr i'r clerc.

Cyfarfod Unllais Cymru Nos Fercher 22 Ionawr 2020

Adroddwyd gan y Cadeirydd y bydd yn mynychu cyfarfod o Unllais Cymru ar
Nos Fercher 2020. Yn y cyfarfodydd maent yn gofyn i'r cynghorau presennol beth
sydd wedi gweithio yn dda yn eu hardal. Penderfynwyd pwysleisio llwyddiant y
clwb ieuencid

Cystadleuaeth gwobr pentrefi Sir Gaernarfon 2020

Adroddwyd fod y gystadleuaeth yma am fodoli eto eleni. Penderfynwyd i ystyried
rhoi cais i fewn pan ddaw'r manylion i law

Adroddiad blynyddol y Cyngor

Adroddwyd fod tipyn o newidiadau i'w gwneud i'r hyn a gytunwyd eisoes. Yn
gyntaf nid oedd yn bosib defnyddio gwasanaeth y Post Brenhinol oherwydd

Penderfyniad y cyngor oedd i beidio gwrthwynebu cau'r ciosg oherwydd y nifer
o alwadau a wnaethpwyd o'r ciosg dros y 12 mis diwethaf, a'r ffaith fod pawb bron
gyda ffôn symudol. Hefyd fod siop Spar wrth ymyl ar agor tan 9:00 y nos ac roedd
tai cyfagos. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i amddiffyn cadw'r ciosg ar
agor.

Y Clwb ieuencid

Adroddwyd fod y niferoedd sy'n mynychu'r clwb ieuencid yn parhau oddeutu
40 y noson a fod rhai o'r ieuencid yn cael defnyddio'r ystafell snwcer.

Y Fynwent

Adroddwyd fod rhai o aelodau Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod yn y fynwent i
gario allan asesiad risg.

Roedd y canlynol angen sylw:

a) Arwyddion yn y Maes Parcio angen eu gosod;

b) Nodwyd fod y llwybrau yn esmwyth ac yn glir o unrhyw anawsterau;

c) Nodwyd fod gap yn y ffens a byddai yn bosib i ddefaid fynd drwyddo i fewn i'r
fynwent;

d) Adnabuwyd fod rhai o'r polion ffens yn rhydd;

e) Adnabuwyd fod tyfiant yn dod dros y wal o fynwent yr Eglwys i fynwent y
Cyngor a bod angen ei dorri;

f) Penderfynwyd peidio a darparu grit oherwydd problemau ymarferol ynglŷn a'i
waredu;

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad a gofyn i'n contractwr gario allan y

gwaith angenrheidiol a adnabuwyd ar yr asesiad risg.

Meysydd chwarae

Adroddwyd fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda chynrychiolydd o gwmni G L Jones
ar gyfer symud ymlaen gyda cais am offer yn cae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo.
Nodwyd fod y cynrychiolydd am anfon enghreifftiau.

Newyddlen y Cyngor

Nodwyd fod y cyngor eisoes wedi penderfynu ar gynhyrchu newyddlen ar gyfer
ei ddosbarthu oddi fewn i ardal y Cyngor Cymuned er mwyn hysbysu yr holl
waith mae'r Cyngor yn ei gwneud.

Penderfynwyd y dylid anfon unrhyw addasiadau neu ychwanegiad i'r clerc erbyn
y 4ydd o Ionawr 2020 a gobeithir bydd y newyddlen yn cael ei rannu o gwmpas
yr 2ail o Fawrth 2020

Sefyllfa traffig yn Llanrug a Chwmyglo.

Nodwyd fod nifer o gwynion wedi eu derbyn am sefyllfa traffig ar Ffordd yr Orsaf,
Llanrug gyda ceir yn gyrru a phroblemau parcio sydd yn ei gwneud yn anodd i
fysiau fynd drwodd. Penderfynwyd i drefnu cyfarfod cyhoeddus gan geisio cael
presenoldeb swyddogion o Gyngor Gwynedd a'r Heddlu yno.

Targed ardal Llanrug ar gyfer Eisteddfod 2021.

Adroddwyd fod hysbysiad wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Eisteddfod 2021 yn
sefydlu targed i ardal Llanrug godi arian o £5,000.

Penderfynwyd i aelodau'r Cyngor geisio cysylltu ac aelodau o'r cyhoedd a fyddai
a diddordeb mewn sefydlu pwyllgor ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Pwyllgor cyllid y cyngor

Fe etholwyd y tri aelod canlynol i'r Pwyllgor Cyllid:

Y Cynghorydd Martin Jones

Y Cynghorydd Alan Pritchard

Y Cynghorydd Gwion Llwyd

'roedd y drefn honno yn gweithio i'r 4ydd digid o'r cod post a fyddai'n golygu i nifer
fawr o'r adroddiad gael eu dosbarthu tu allan i'n ardal. Yn sgil hyn, penderfynodd
y Cyngor gymeradwyo defnyddio cwmni preifat i'w dosbarthu. Byddai'r gost am
y postio yn £518.20.

Arian er cof am y diweddar Cynghorydd Llywelyn Williams

Adroddwyd fod arian wedi'i dderbyn er cof am y diweddar Cynghorydd
Llywelyn Williams. Un o'r argymhellion oedd i brynu teledu ar gyfer y Sefydliad
Coffa i'w ddefnyddio gan y clwb ieuencid a mudiadau eraill sy'n defnyddio'r
adeilad, yn cynnwys y Cyngor Cymuned ar gyfer arddangos dogfennau, ceisiadau
cynllunio ayyb. Cytunwyd i symud ymlaen i brynu teledu ac i roi plac arno er cof
am Llywelyn.

Casglu sbwriel

Penderfynwyd cynnal diwrnod casglu ysbwriel yn Llanrug a Chwm y Glo ar 7fed
o Fawrth 2020 i gychwyn yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug a gwaelod Allt Goch
Cwm y Glo am 9:30

Cynnwys poteli plastig o gwmpas yr ardal

Penderfynwyd i gysylltu ag Adran Iechyd ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd i
drefnu casgliad a'i anfon i labordy i gael gwybod yn union beth yw'r stwff sydd yn
cael ei adael mewn poteli plastig o gwmpas yr ardal.

Cais Cynllunio

Penderfynwyd cefnogi'r cais i godi estyniad deulawr i ochr 2, Tai Craig Y Don,
Cwm-y-Glo ar yr amod ei fod yn cydymffurfio a sylwadau Dwr Cymru a dim
gwrthwynebiad gan yr Adran Prifffyrdd

Gwobrau Llais Cymru 2019

Noder fod y dyddiad cau ar gyfer hwn ar y 25ain Ionawr 2020. Gellir rhoi cais oddi
tan y categorïau canlynol.

a) Gwefan Orau;

b) Adroddiad Blynyddol Orau;

c) Ymgysylltu Ieuencid Orau; d) Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau

Yn sgil y prinder amser, penderfynwyd peidio a rhoi cais i fewn eleni ond anelu ar
gyfer y flwyddyn nesaf

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Cofnodion Cyfarfod y 7fed Ionawr 2020
Cofnodion Cyfarfod 3ydd Rhagfyr 2019
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion
Gwaith “Cwmni Arbed” yn Neiniolen – derbyniwyd ymateb gan Sian Gwenllian a chwmni Arbed am Byth yn datgan fod Ian Griffith yn Llywodraeth Cymru ynghyd a Lesley Griffiths AC yn delio gyda’r mater bellach. Mae’r gweinidog Lesley Griffiths wedi cytuno i gomisiynu ail adolygiad annibynnol ac yn disgwyl copi o’r adroddiad yn fuan y flwyddyn newydd yma.
Taith Patagonia – Penderfynwyd gyfranu £150 i Gwion Llywelyn Gryffydd tuag at ei daith i wirfoddoli gyda mudiad yr Urdd i Patagonia hwyrach ymlaen eleni. Edrychwn ymlaen at glywed ei hanes draw yno ar ôl iddo ddychwelyd adref.
Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
Tan y Bryn, Dinorwig – Tystysgrif Cyfreithloni Datblygiad.
Gosod / Adolygu Praesept
Wedi trafodaeth, pwysu a mesur, a hynny yn anodd gan na wyddom eto o sicrwydd beth fydd ein rol, os bydd, yn dilyn camau gan Cyngor Gwynedd ynglyn a meysydd chwarae y plwyf. Cynigiwyd i gadw y praesept eleni run fath a llynedd ar 31,800 yn hytrach na codi y praesept fel oedd yn y cynllun busnes 3 blynedd.
Cytunwyd yn unfrydol ar hyn.
Annibynniaeth.
Mae sawl Cyngor Sir a Chynghorau Cymuned bellach wedi cael trafodaeth a/neu pleidlais ar annibyniaeth I Gymru bellach.
Rhoddwyd pleidlais fod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cefnogi mewn egwyddor neu gwrthwynebu y bwriad o greu Cymru Annibynnol.
Pleidleisiwyd yn unfrydol o Blaid.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanberis

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher yr 8fed o Ionawr, 2020 am 7.00 y.h.
1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padam: Bethan Holding (Cadeirydd), Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas
Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Rhys ap Gwilym, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding,
3 CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 10fed o Ragfyr, 2019 fel rhai cywir.
4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Wal y Fynwent:
Yn dal i ddisgwyl pris torri coed.
2.Coed a Goleuadau Nadolig:
Cafwyd canmoliaeth i'r ddarpariaeth eleni gan sawl un. Soniwyd am ychwanegu goleuadau i ryw 6 polyn ym mhen dwyreiniol y pentref ar gyfer Nadolig 2020.
3. Cynllun Cynefin LleChi:
Bu BH a KMJ mewn cyfarfod arall a drefnwyd. Nodwyd fod peth newid wedi bod yn y ffordd y bydd grantiau'n cael eu cynnig er mwyn hwylysu'r drefn. Awgrymwyd cysylltu'r mater â dathliad 800 mlynedd Castell Dollbadarn.
4. Coed Doctor:
Roedd y Clerc wedi gofyn am gael trwsio'r giât. Roedd hefyd wedi cysylltu efo BG i weld a oedd rhywbeth pellach ar y gweill ar gyfer y coed. Mewn ateb dywedodd BG i'w swydd gael ei hymestyn tan ddiwedd Mawrth. Yn y cyfamser, yn ogystal â thocio'r coed ger y tai bydd contractwr yn cael gwared â changhennau marw oedd yn beryglus ger y llwybrau. Dywedodd ei fod yn gobeithio hefyd trefnu nifer o ‘ddyddiau gwaith’ gan geisio denu pobl leol i ddysgu sgiliau newydd. Soniodd yn ogystal am y gwaith gyda’r ddau Gyngor arall lle’r oedd CG yn ceisio eu cael i reoli coedlannau.
5. CG - Toiled Y Glyn:
Yn dilyn y sioc fod y toiled wedi cau a Chyngor Gwynedd (CG) wedi torri ei addewid, daeth newydd da rai dyddiau cyn y Nadolig, wedi i KMJ â'r Clerc ysgrifennu i fynegi siom y Cyngor hwn, i ddweud y byddai'r toiled ar agor am bythefnos dros y Nadolig â'r Calan. Erbyn heno cafodd y Clerc wybod gan AWJ, un o swyddogion y CG, y bydd y toiled yn parhau ar agor weddill y gaeaf. Bydd y Clerc yn holi am gadarnhad o hynny ar bapur. Penderfynwyd y byddai'n rhaid sicrhau bod y tri thoiled ar agor tan ddiwedd y flwyddyn cyn talu'r arian y cytunwyd arno i CG.
6. Biniau Halen:
Cafwyd cadarnhad bod y Clerc yn y broses o drefnu gyda CG i lenwi'r biniau halen. Penderfynwyd eu llenwi i gyd gan adolygu'r sefyllfa ar ôl y gaeaf. Unwaith y gaeaf yn unig

O gwmpas y Bwrdd
Baw Ci – Mae cwynion yn ddyddiol am faw ci yn Penisarwaun, Dywedwyd fod Baw ci holl ffordd ar y pafin trwy’r pentref o groesfan King. PERCHNOGION CWN – PLIS CODWCH BAW EICH CI.
Llwybrau Cyhoeddus - Cyflwynwyd llun o lwybr 139, sydd yn dangos y llwybr cyhoeddus, a darn o lwybr cwrteisi sydd wedi ei greu. Mae angen arwyddion gwell i ddangos i gerddwyr lle mae’r llwybr cyhoeddus yn lle bod pawb yn defnyddio y llwybr cwrteisi. Rhaid bod yn ofalus, neu byddwn yn colli y llwybrau hyn. Gyrru y llun Cyngor Gwynedd wedi ei farcio arno lle mae angen arwyddion gwell i’r llwybr cywhoeddus.
Eco'r Wyddfa – Dywedwyd fod cyfarfod cyhoeddus am ddyfodol yr Eco wedi cymeryd lle, a bod cynifer wedi troi i fyny i gynnig cymorth i’r pwyllgor presennol. Mae cyfarfod arall wedi ei drefnu, a gobeithir bydd pwyllgor newydd yn cael ei sefydlu i gymeryd yr awenau ymlaen. Rydym fel cyngor yn falch iawn o glywed hyn a gobeithio bydd llwyddiant a dyfodol disglair i’r papur bro am flynyddoedd i ddod. Diolch i’r pwyllgor presennol sydd wedi bod wrth y llyw ers y cychwyn cyntaf am eu gwaith yn rhoi papur mor drylwyr at ei gilydd, gyda hynt a hanes am ein hardal leol. Diolch a pob dymuniad da.
Bont ger Brynrefail – Mae’r bont wedi cael ei tharo ers misoedd bellach, ac oherwydd nad yw wedi ei thrwsio, nid oes llwybr heibio iddi, llwybr oedd yn cael ei ddefnyddio yn aml. Cysylltu a’r Cyngor Sir i weld pryd mae wal y bont yn debygol o gael ei thrwsio.
Llwybr I Cegin Arthur – Nid ydym byth wedi clywed gan y Cyngor Sir beth sydd yn digwydd ar y llwybr lle mae’r coed wedi eu torri yn fler a’u gadael. Mae’n edrych yn debyg fod yr un peth wedi digwydd yn y goedwig ger Ynys Iago. Cysylltu eto gyda Cyngor Gwynedd.

y llenwir y biniau.
7 CG - Llifogydd yn cau’r ffordd yn Nantperis:
Cafwyd ymateb i lythyr y Clerc yn nodi bod gwaith wedi ei wneud cyn ac ar ôl y llifogydd. Nodwyd hefyd y bydd cadw’r pibellau ar agor yn flaenoriaeth ac yn rhan o drefnlen waith y Cyngor yn y dyfodol. Nodwyd bod nifer o fanion eraill i’w gwneud i geisio lleddfu’r broblem ond nad oedd sicrwydd yn ôl y SJ pennaeth Adran Prifffyrdd CG y gellid sicrhau na fyddai llifogydd eto. Does dim arwydd bod y Cyngor yn bwriadu rhoi pibellau gwell a mwy o dan y ffordd, ac roedd rhyw ymdrech i egluro nad oedd hynny yn ymarferol. Penderfynwyd gofyn i’r peiriannydd egluro beth yn union oedd y broblem mewn iaith bob dydd.
5 GOHEBIAETH:
1. Gwilym Evans:
Yn nodi wrth ymddiheuro ei fod wedi derbyn nifer o sylwadau gan bentrefwyr oedd yn gwrthwynebu y bwriad yn yr ymgynghoriad cynllunio i greu maes antur a tŵr dringo tu ôl i Westy Dolbadarn. Y ffordd mae’n debyg oedd un o’r prif bryderon ynglŷn â’r cynllun. Serch hynny roedd croeso i’r syniad o ddatblygu a gwella’r gwesty.
2. Owl Cymru:
Llythyr Saesneg am wasanaeth rhybudd trosedd a diogelwch yn nodi nad oedd arian i redeg y gwasanaeth ac yn holi am gymorth. Er fod nifer yn ymwybodol o beth o waith y grŵp, penderfynwyd nad oedd y Cyngor yn dymuno ymuno â’r cynllun.
3. Cymorth Cynllunio Cymru:
Gwahoddiad i gyflwyniad ar gyfer Cynghorau Cymuned yn ymwneud â gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio yn Llandudno ar y 24ain o Ionawr, 2020.
6 CYLLIDEB 2020 - 2021:
Craffwyd yn fanwl ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor yn ogystal â rhagdybio a fyddai’r gwariant yn debyg i’r hyn a glustnodwyd yn y Gyllideb. Hyd yma mae’r gwariant yn agos iawn at y Gyllideb ac er ei bod yn anodd rhagweld union wariant un neu ddwy o adrannau cyn diwedd y flwyddyn doedd dim achos i bryderu. Er enghraifft gwyddom fod y cais am gefnogaeth i Eisteddfod Genedlaethol Llyŷ ac Eifionydd yn mynd i fod yn llai na’r disgwyl, (penderfynwyd gwneud y cyfraniad eleni) ond bydd bil halen sylweddol mae’n debyg ar ôl penderfynu llenwi’r biniau i gyd.
Trafodwyd nifer o syniadau yn cynnwys dechrau gosod offer ar gyfer ymarferion awyr agored a fyddai’n addas i bobl o bob oed. Bydd angen trafod lleoliadau, mwy na thebyg gyda CG, cyn gwneud penderfyniadau pellach, ond neilltuwyd arian mewn egwyddor ar gyfer yr offer, gan ychwanegu atynt mewn blynyddoedd i ddod os byddant yn boblogaidd. Nodwyd hefyd bod angen edrych ar gyflog ac amodau gwaith y Clerc.
7. PRAESEPT 2020 - 21:
Ar sail yr uchod a chynnydd mewn gwariant mewn rhai adrannau penderfynwyd cynyddu’r Praesept i £30,000, cynnydd o £2,000. Mae hyn yn golygu cynnydd ar drethi cartrefi Band D o £2.58, yn cyfateb i gynydd o £0.21c y mis, i roi treth o £38.76 y flwyddyn.

TUDALEN YR IFANC

Heledd Anna: Cyflwyno Chwaraeon i'r hŷn a'r ifanc



Mae Heledd, yn wreiddiol o Gwm y Glo, wedi serennu ar deledu ers yn ifanc yn actio'r cymeriad Gemma ar Rownd a Rownd. Ond erbyn heddiw, cyflwyno rhaglenni chwaraeon sy'n rhoi wyneb Heledd i'n sgrin fach. Dyma'r Eco'n mynd draw am sgwrs:

Sut ges di mewn i'r maes darlledu chwaraeon?

Roeddwn i'n gweithio fel ymchwilydd ar y rhaglen gylchgrawn 'TAG' ar Stwnsh ac roedd 'na sgwrs Chwaraeon pob wythnos. Daeth y cynhyrchwyr i ddeall fod gen i andros o ddiddordeb mewn chwaraeon, ers yn ifanc a fy mod yn chwarae Pêl-rwyd a Hoci yn wythnosol ac wedi arfer chwarae Pêl-droed pan oeddwn i'n iau. Wnaethon nhw holi pe bai gen i ddiddordeb cyfrannu ar y rhaglen fyw un wythnos a nes i ddweud pam lai! O hynny, roeddwn i ar y rhaglen yn wythnosol, yn mynychu cynadleddau wasg Rygbi a Phêl Droed yn aml, ac fel rhyw fath o ohebydd chwaraeon y gyfres. Es i 'mlaen i gyflwyno sawl eitem, ac yn y pendraw wnes i symud o gyfrannu yn y sgwrs i gyflwyno'r sgwrs chwaraeon byw gyda chyfranwyr. Roedd hyn i gyd tra dal yn ymchwilydd i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd!

Ti'n cyflwyno ar raglen Cic, rhaglen chwaraeon i blant ar Stwnsh, a hefyd ar raglen Rygbi Pawb i oedolion. Pa wyt ti'n hoffi fwyaf ac wyt ti'n gweld y gwahaniaeth yn y ffordd wyt ti'n cyflwyno?

Cic oedd y gyfres gyntaf wnes i gyflwyno fel y prif gyflwynydd, felly mae Cic yn agos iawn at fy nghalon i - ro'n i hefyd yn ymchwilydd ar y gyfres gyntaf. Dwi bellach wedi gwneud 3 cyfres o Cic, 2 gydag Owain Tudur Jones ac un Rygbi gyda Billy McBryde. Mae'r ail gyfres bêl droed yn cael ei darlledu eleni i gyd fynd â'r Euros. Dwi mor ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle i gyflwyno Rygbi Pawb eleni hefyd. Mae hwn yn gyfres sydd yn dilyn rygbi dan 18 Cymru, talent y dyfodol, ac yn cael ei darlledu'n fyw ar y We gyda rhaglen uchafbwyntiau ar S4C y noson ganlynol. Mae'n hollol wahanol i Cic gan ei bod hi'n fyw ac mae 'na lot mwy o gyfweld difrifol i'w wneud, sydd yn sgil wahanol i gyflwyno teledu plant.

Dwi wedi mwynhau cyflwyno'r 3 rhaglen o Rygbi Pawb, gan fy mod i wrth fy modd â theledu byw - felly gobeithio daw'r cyfle am fwy!

Dy hoff gyfweiliad hyd yma?

Mae o wastad yn grêt cyfweld chwaraewyr a hyfforddwyr sydd wedi ennill gêm, ond mae'n eithaf anodd cyfweld â rhai sydd wedi colli! Mae 'na sawl cyfweiliad sydd yn aros yn y cof, Sam Warburton a Joe Allen, pobol neis i'w gyfweld gan eu bod mor hawddgar! Yr un mwyaf diweddar a doniol sydd yn dod i'r cof ydi un gyda Ben Davies, amddiffynnwr pêl droed Spurs a Chymru ar gyfer Cic. Roedd rhaid i Ben a fi wneud y nifer mwyaf o "headers" o'r bel nol a 'mlaen ac oedden ni'n gallu, ac ar yr ail ymdrech gen i, wnes i lithro (yn ddramatig iawn) ar y gwair gwlyb a disgyn ar fy wyneb! Hollol embarrassing o flaen un o chwaraewyr Pêl Droed mwyaf enwog Cymru!!

Ti wedi gweithio ar raglen chwaraeon eithafol 'Y Gemau Gwyllt', beth yw'r peth fwyaf eithafol i ti wneud?

Wnes i gyflwyno cyfres 3 o'r Gemau Gwyllt efo Tudur Phillips yn 2018. Roedd yn gyfres boncyrs lle'r oedd rhaid i blant Cymru - a Tudur a fi! - gystadlu mewn campau eithafol dros Gymru. Yr un mwyaf eithafol wnes i oedd abseilio 50m lawr Pont Trafnidiaeth Casnewydd ac roedd rhaid i mi ffilmio linc wrth hongian!

Es di allan i Japan i gefnogi'r tîm cenedlaethol yng Nghwpan y Byd, sut brofiad gefaist ti?

Oni'n andros o lwcus i allu mynd draw i Japan dros gyfnod Cwpan y Byd. Wnes i hefyd weithio allan yna i WRUTV gan recordio ambell i beth gyda theuluoedd y garfan ar y bysus wrth deithio i'r gemau. Roedd o'n brofiad anhygoel gan fod hi'n wlad hollol wahanol i unrhyw le dwi wedi bod o'r blaen. Roedd y bwyd yn anhygoel yna, dwi'n ffan o sushi a noodles beth bynnag. Roedden nhw'n bwyta cig Ceffyl yn Kumamoto yn y de, felly roedd rhaid bod yn wylidwrus iawn! Roedd mynd ar y trê'n fwled oedd yn gallu mynd hyd at 320Km (199milltir) yr awr yn brofiad gwych. Dwi'n cofio bod wedi dychryn fy mod i wedi teithio dros 70km mewn 20 munud. Os byddai gennym ni un o'r trenau yma yng Nghymru byddai modd teithio rhwng Caerdydd a Chaernarfon mewn llai nag awr!



Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i'r rhieni am ddod â'r plant i ymuno yng ngwasanaeth hyfryd Cristingl fore Sul, Ionawr 26ain yn Eglwys Santes Helen. Fe fwynhaodd y plant a'r oedolion y profiad o wneud oren Cristingl gydag oren, kannwyll a melysion a chafwyd ystyr y gwasanaeth ar y taflunydd ac yna cyfle i gymdeithasu dros baned a diod oren a bisgedi. Wrth drafod 'Ffrindiau' yn yr Ysgol Sul roedd Myfi wedi dotio bod gan yr Iesu ddau ddisgybl o'r enw Iago - yr un enw yn union â'i brawd bach newydd-anedig, Iago Llew, ac Ioan yntau yn falch ei fod o'r un enw â Ioan Annwyl, disgybl arall i'r Iesu. Roedd Joe yn gwybod ei fod ef o'r un enw â Joseff, tad Iesu.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar ddydd ein Nawdd Sant, Mawrth 1af wedi egwyl hanner tymor.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr yw: Wyn Griffith, Tai Arthur a Jane Parkinson, Bryn Eglwys.

Y mae Leslie Larsen yn awyddus i gael arian aelodaeth Clwb Cant 2020 y ffyddloniaid mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda. Mae modd ymuno drwy Archeb Banc os dymunir, £6 y flwyddyn yn unig yw'r tâl.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi ar ddydd Mawrth, Mawrth 2il am 2.00 o'r gloch ar y cyd â'r ysgol yn y Neuadd Gymuned gyda eitemau gan aelodau'r pwyllgor a phlant yr ysgol, gyda phaned ar y diwedd.

Eisteddfod Bentref Cynhelir Eisteddfod 2020 nos Fercher, Gorffennaf 15fed. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni'n oedolion yn y llefaru a'r canu, gwaith celf a chrefft a choginio.

Pŵl Bonws Enillydd y tro hwn oedd Ann Ifans, Sycharth. Llongyfarchiadau.

Tâl am yr Eco Ffyddloniaid yr Eco sy'n derbyn yr Eco drwy law Ann Ifans - gofynnir yn garedig am dâl o £10 y flwyddyn erbyn diwedd Mawrth os gwelwch yn dda. Os oes unrhyw un yn dymuno rhifyn yn fisol, cysylltwch ag Ann ar 872407 neu Liz ar 872421.

Eglwys Santes Helen

Gwasanaethau mis Mawrth am 11 y bore

1: Dydd Gŵyl Dewi Sant

Gwasanaeth y Cymun Bendigaid i ddathlu'r Wyl. Croeso i bawb ymuno â ni. Yn dilyn mae cinio arbennig wedi ei drefnu yn Y Gwynedd, Llanberis, am 1.00 y prynhawn. Cysylltwch a swyddogion yr eglwys am fanylion pellach.

Gwasanaethau y Cymun Bendigaid bob Sul o'r mis.

Gwasanaethau y Nadolig a'r Cristingl

Braf oedd cael croesawu aelodau o Gapel Brynrefail i'n Gwasanaeth Naw Llith a Charolau ac ymunodd rhai aelodau hefyd yng ngwasanaeth Noswyl Nadolig. Ym mis Ionawr cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl ar y cyd gydag aelodau Ysgol Sul Bosra. Da yw cael cyd-addoli a llawenhau mewn gwasanaethau ar achlysuron arbennig. Gobeithir uno unwaith eto mewn Gwasanaeth i ddathlu'r Pasg.

Blychau Cenhadol

Fe fydd Blychau Cenhadol yn cael eu dosbarthu yn ystod mis Mawrth i gasglu arian at elusen penodol.

Te a Thost

Cynhelir Te a Thost yn Neuadd yr Eglwys rhwng 9 ac 11 bob bore Llun. Croeso i bawb alw i mewn am sgwrs.

Gyrfa Chwist

Cynhelir Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fawrth am 7 yr hwyr.

Bingo Arian

Cynhelir Bingo Arian yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fercher am 7 yr hwyr.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk

BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948

williamshy@parliament.uk

Problemau Trafnidiaeth



Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn neuadd yr Ysgol Gynradd yn ystod y mis, a daeth nifer dda o drigolion yno i ddatgan barn. Y gobaith yw cael adroddiad llawn am y cyfarfod erbyn y rhifyn nesaf.

Clychau'r Grug Byddwn yn cyfarfod yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, bnawn Gwener, Chwefror 28ain am 2.00 y pnawn Roeddem mor falch o glywed am newyddion da Menna.

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau gan Nan, ein Llywydd. Cychwynnwyd gyda Chân y Mudiad gyda Susan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau ac anfonir ein cofion at Iris, Megan ac Eirianwen.

Cynhelir Bowlïo Deg yng Nglasfryn ar Fai 7fed am 7.00yr hwyr - enwau erbyn Ebrill 20fed. Cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd ar Chwefror 29ain yn Ysgol Brynrefail. Rhannwyd 5 pecyn cardfwrdd i bob aelod ar gyfer y gwahanol frechdanau a gofynnir yn

garedig am deisennau, teisennau bach, bara brith ayyb ar gyfer y caffi. Pawb i ddod â lliain sychu gyda nhw. I ddathlu Gŵyl Ddewi y gangen bydd aelodau'r pwyllgor yn gofalu am yr arlwy. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Glasdir, Llanrwst, eleni ar Sadwrn, Mai 9fed.

Ein siaradwr gwadd oedd Anwen Thomas, yn enedigol o Rhyd y Groes, Pentir. Testun ei sgwrs oedd 'Troedio - Adweithedd Gwynedd'. Wedi 13 mlynedd o weithio fel nyrs Iechyd Meddwl penderfynodd ddilyn cwrs ar Adweitheg (Reflexology). Beth ydyw therapi Adweitheg? Cyffyrddiad ysgafn sy'n cael ei gario allan ar y traed neu'r dwylo yn seiliedig ar yr egwyddor fod pwyntiau atgyrch penodol. Gellir olrhain adweitheg mor

bell yn ôl â 2,500 CC ac mae meddyginiaeth Tseiniaidd yn mynd yn ôl mor bell â 4,000 CC. Gall adweitheg annog a chefnogi cydbwysedd naturiol ein helpu i ymlacio, rhyddhau tensiwn, helpu cwsg, helpu i ymdopi ag wellallesc yffredinol. Mae mathau gwahanol o adweitheg yn gallu cynnig adweitheg clinigol, lliniarol, ffrwythlondeb a mamolaeth. Cafodd Avril y fraint o orwedd yn y gadair esmwyth a chael y profiad hyfryd o Adweitheg gan Anwen. Os am driniaeth Adweitheg gellir cysylltu ag Anwen ar y we.

Diolchwyd i Anwen am orig hynod o werthfawr a difyr. Yn haeddiannol iawn enillydd y raffl oedd Avril - rhodd fendithiol gan Anwen. Diolch i Eryl, Rhiannon, Carys ac Ann Lloyd am y baned. Ar Fawrth 10fed byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda bwffe.

Diolchiadau Dymuna Anita a Gareth Jones, Bryn Moelyn, a'r teulu ddiolch yn arw am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd gan ffrindiau a chymdogion yn dilyn

marwolaeth ei mam, sef Megan Axon, Hafan Elan. Bydd colled fawr iddynt fel teulu a ffrindiau.

Salwch Cofiwn yn arw, gan ddymuno gwellhad buan iawn, i Katherine Tyrnel, 3 Pen Cae. Bu yn yr ysbyty am gyfnod ond adref nawr. Cofion gorau.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Charles Jones, Dwyrws, Ffordd Glanffynnon. Yntau wedi treulio amser yn yr ysbyty ond gartref ar hyn o bryd. Cofion gorau atoch, Charles.

Profedigaeth Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Theresa a'r teulu, Glyn Twrog, yn dilyn marwolaeth ei thad.

Cydymdeimlwn hefyd ac Iwan, Carol a'r plant, Glan Llyn, Ffordd Minffordd, yn eu profedigaeth fawr hwythau yn dilyn marwolaeth tad Iwan, sef y Parch Eric Roberts, Caeathro.

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant Chwefror

- 1.. Elen George, Brynrefail
- 2.. Phyllis Ellis, Penisarwaun

Capel y Rhos

Oedfaon mis Mawrth am 10y bore.

Mawrth 1af - Parch Marcus W. Robinson

8 - Oedfa Deuluol

15 - Gweinidog

22 - Mr. T. Alun Williams

29 - Parch. Megan Williams

Cynhelir cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd ar brynhawn Gwener, Mawrth 6ed am 1:30. Croeso i bawb ymuno.

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

**DEWCS MAE
O'N FLASUS**

**PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!**

Cysylltwch a

**John Brynafon
LLANRUG**

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng

7.00pm ac 11.00pm

PLAID CYMRU LLANRUG A'R CYLCH

CYFNOD CYNNARECO'R WYDDEA

Dan ofal Goronwy Hughes

Nos Fercher 25 o Fawrth

am 7.30

Sefydliad Coffa Llanrug

Croeso cynnes i bawb.

Dewch i edrych ar yr hen rifynnau!

Cyfle i hel atgofion dros baned.

THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno

DRAENEN DDU

cyfieithiad Angharad Tomos
o ddrama Charley Miles

Daw'r teitl o sgwrs rhwng dau gymeriad am y ddraenen ddu sy'n blanhigyn tu hwnt o anodd cael gwared ohono fo. Mae nhw'n trafod sut mae'r hyn sy'n ymddangos fel dau blanhigyn ar yr wyneb yn tarddu o'r un lle, a bron yn amhosib ei ddadwreiddio. A dyma un o broblemau dwysaf cefn gwlad heddiw.

Ddylen ni aros neu adael? Datblygu neu warchod?

Beth ddaw o'n cymunedau ni, a chyfrifoldeb pwy yw eu parhad?

Hen, hen thema sydd yma, ond mae'n cael ei chyflwyno i genhedlaeth newydd mewn modd annwyl, doniol a dirdynol.

Y ddau yn y ddrama yw'r plant cyntaf sy'n cael eu geni yn y pentref ers ugain mlynedd. Wrth iddynt dyfu mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar eu hysgwyddau nhw. Mae Hi yn gadael, a'n dod yn ôl o bryd i'w gilydd. Mae O yn aros, a'n gweithio ar y fferm. Wrth iddynt dyfu'n hŷn, mae nhw'n cwrdd yn achlysurol – amser angladd, priodas neu dros y Dolig. Yn ei dychymyg Hi, mae bro ei phlentyndod yn aros. Iddo Fo, mae'n dyst i'r newid yn ddyddiol. Mae'r hen wynebâu'n marw, a rhai dieithr yn dod yn eu lle. Mae sawl tŷ ar werth, tai haf yn britho'r ardal, ac mae enwau ffermydd a chaeau dan fygythiad.

YDA CHI'N GWYBOD AM ENWAU LLEOL SYDD WEDIEU NEWID YNEICH CYMUNED CHI? YDA CHI WEDI GORFOD CWFFIO DROS YR HAWL I WRTHOD? FASA NI WRTH EIN BODDAU TASA CHI'N GYRRU ENGHREIFFTIAU I NI GAEL CYNNWYS FAINT FEDRWN NI YN Y RHAGLEN.

Gyrrwch at betsan@theatrbaracaws.com a diolch rhag blaen am gyfrannu.

Taith o amgylch cymunedau Cymru rhwng Mai 12 – Mehefin 6, 2020.

Cast: Rhian Blythe a Rhys ap Ifor

Yes cymru

Gorymdaith Annibyniaeth

Ar Ebrill 18fed bydd gorymdaith enfawr yn galw am annibyniaeth i Gymru yn cymryd lle ar strydoedd Wrecsam, wedi ei drefnu gan "All Under One Banner Cymru". Mi fydd yn ddiwrnod hwyliog, ac yn gyfle unwaith eto, yn dilyn gorymdaith Caernarfon y llynedd, i bobl yr ardal gael dangos eu hanfodlonrwydd gyda rheolaeth San Steffan, ac i gynyddu'r gefnogaeth sydd i annibyniaeth yma yng Nghymru. Mae YES CYMRU yn trefnu bysiau i Wrecsam ag yn ôl ar y diwrnod, sydd ar gael drwy'r wefan www.yes.cymru

Gŵyl Cyfoeth y Ddaear a'r Hinsawdd

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd 'Gŵyl Cyfoeth y Ddaear a'r Hinsawdd: Llanberis a'r Byd' yn cymryd lle yn Y Ganolfan, Llanberis ar Fawrth 21ain rhwng 10:30 y bore a 4.30 y pŵn. Croeso i bawb fynychu'r digwyddiad hwn yn rhad am ddim.

Bydd yr ŵyl yn cynnwys cyflwyniadau a stondinau yn arddangos themâu cyfoeth naturiol y Ddaear (gan gynnwys bioamrywiaeth), newid hinsawdd a sut all unigolion, cymunedau a gwledydd weithio tuag at greu planed cynaliadwy. Bydd y sawl sy'n cymeryd rhan yn y digwyddiad yn gynnwys: ysgolion lleol, tair prifysgol o Gymru, nifer o grwpiau bywyd gwyllt a chadwraeth, artistiaid a chwmnïau theatr lleol, sefydliadau cynnyrch lleol a chynaliadwy ac aelodau o'n cymunedau lleol.

Bydd digwyddiadau trwy'r dydd i apelio i bawb ac i ymdrin â phob agwedd ar newid amgylcheddol. Trefnir y digwyddiad gan CRAD (Canolfan Ryngwladol Adnoddau Daear), prosiect amgylcheddol newydd gyda Llanberis yn greiddiol iddo.

Manylion pellach am CRAD ac am y digwyddiad hwn ar gael ar wefan ierc.world.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Ŵyl. Dewch yn llw!

Tirwedd Llechi Cymru wedi'i enwebu ar gyfer Statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO

Gallai Tirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru fod y Safle Treftadaeth y Byd nesaf y DU. Dyma a gyhoeddwyd gan Weinidog Treftadaeth Llywodraeth San Steffan, Helen Whately wrth iddi gyflwyno'r enwebiad ffurfiol i UNESCO.

Os caiff ei dderbyn, bydd y dirwedd yn ennill ei le fel rhif 33 o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yn y DU a'r 4ydd yng Nghymru, yn dilyn Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Chestyll a Waliau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.

Daeth y dirwedd - sy'n ymestyn ledled sir Gwynedd - yn arweinydd y byd ar gyfer cynhyrchu ac allforio llechi yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif. Erbyn yr 1890au roedd diwydiant llechi Cymru yn cyflogi tua 17,000 o bobl ac yn cynhyrchu 485,000 tonnall o lechi'r flwyddyn. Cafodd y diwydiant effaith enfawr ar bensaernïaeth fyd-eang gyda llechi Cymreig yn cael eu defnyddio ar nifer o adeiladau, terasau a phalasau ledled y byd gan gynnwys Neuadd San Steffan, Adeilad yr Arddangosfa Frenhinol, Melbourne, Awstralia a Neuadd Dinas Copenhagen, Denmarc.

Dywedodd Gweinidog Treftadaeth y DU, Helen Whately: "Mae'r dirwedd lechi anhygoel yma yn hynod arwyddocaol i ogledd-orllewin Cymru a'i dreftadaeth ddiwydiannol. Disgrifir yr ardal fel un sydd wedi 'rhoi to ar fyd y 19eg ganrif' ac mae'r llechen o'r chwareli yn parhau i gael dylanwad ar bensaernïaeth ledled y byd.

"Mae'r enwebiad yma yn ffordd wych o gydnabod pwysigrwydd treftadaeth chwareli llechi Cymru a fydd yn dod â budd nid yn unig i Wynedd ond i ogledd Cymru gyfan trwy ddenu ymwelwyr, hybu buddsoddiad a chreu swyddi."

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Ddatblygu'r Economi: "Rwy'n credu y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod angen mwy o ddealltwriaeth o arwyddocâd diwydiant llechi Cymru a'i rôl nid yn unig wrth lunio ein cymunedau, ein hiaith a'n diwylliant ond hefyd wrth roi to ar y byd ac allforio technolegau a phobl yn fyd-eang. Mae'r cam pwysig hwn ymlaen yn y broses yn newyddion da wrth i ni gyflwyno ein henwebiad yn ffurfiol i UNESCO.

"Nid yn unig y mae'r cais yn helpu i ddathlu a chydabod ein diwylliant, treftadaeth ac iaith unigryw ond bydd hefyd yn agor y drws ar gyfer adfywio economaidd ar draws yr ardal, gan gynnwys y diwydiant chwarela presennol, sgiliau traddodiadol a chreffft ynghyd â cheisio creu twristiaeth gynaliadwy a chyfleoedd gwaith gwerth uchel yng Ngwynedd."

Yn ogystal â'r galw rhyngwladol am lechi Cymreig, rhwng 1780 a 1940 roedd yr ardal hefyd yn gartref i nifer o ddatblygiadau dyfeisgar mewn chwarela a phrosesu cerrig a thechnoleg rheilffordd ar gyfer tirwedd mynyddig. Mae'r dirwedd heddiw wedi cael ei drawsnewid ar raddfa anferth oherwydd cannoedd o flynyddoedd o gloddio yn yr ardal. Mae'r enwebiad i UNESCO yn adlewyrchu hyn ac arwyddocâd rhyngwladol llechi Cymreig wrth 'rhoi to ar fyd y 19eg ganrif'.

Mae Tirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru bellach wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i UNESCO fel enwebiad nesaf y DU i'w osod ar Restr Treftadaeth y Byd gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

Bydd y safle rŵan yn cael ei ystyried gan Gyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd dros y flwyddyn nesaf cyn cael ei ystyried i'w gadarnhau yng nghyfarfod Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn 2021. Rhagwelir y bydd penderfyniad ar statws Tirwedd Llechi Cymru yn y dyfodol yn cael ei wneud yn ystod cyfarfod Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO 2021.

Mae'r cais yn cynnwys safleoedd:

- Chwarel Lechi Penrhyn, tref Bethesda, a Dyffryn Ogwen i Borth Penrhyn
- Tirwedd Mynyddig Chwarel Lechi Dinorwig
- Tirwedd Chwareli Llechi Dyffryn Nantlle
- Chwareli Llechi Gorseddau a Prince of Wales, Rheilffyrdd a Melin
- Ffestiniog: ei Cheudyllau a Chwareli Llechi, 'prifddinas llechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
- Chwarel Lechi Bryneglwys, pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn

Ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu enwebiad mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau arian trwy gronfa Treftadaeth y Loteri Cynllun Lle Arbennig, Arloesi Gwynedd Wledig a Partneriaeth Eryri i weithio ar draws cymunedau chwarelyddol Gwynedd er mwyn ceisio grymuso, ail-gysylltu ac adfywio'r cymunedau hynny – trwy brosiect LleCHI. Mae'r gwaith yma yn cynnwys prosiectau i'w gwireddu yn yr ardaloedd a thrwy waith dehongli, celf, digwyddiadau, arddangosfeydd a thrwy greu Llysgenhadon Ifanc a Llysgenhadon yn ein cymunedau a busnesau.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, yr Arglwydd Elis-Thomas: "Rydym wrth ein bodd y bydd Tirwedd Llechi Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno fel enwebiad nesaf y DU fel Safle Treftadaeth y Byd. Mae gan Gymru dreftadaeth ddiwydiannol unigryw ac amrywiol sy'n llawn haeddu cael ei ddathlu.

"Mae'r enwebiad yma yn rhoi cydnabyddiaeth bellach i'r dirwedd ragorol hyn - o rywbeth sydd wedi'i wreiddio yn ein daeareg a'n diwylliant, ond sydd ag arwyddocâd byd-eang. Hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid am eu gwaith caled wrth baratoi'r cais a hoffwn ddymuno'n dda i'r cais wrth iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol."

Ychwanegodd Gweinidog Swyddfa Gymreig Llywodraeth y DU, David T.C. Davies: "Mae tirwedd drawiadol Gymreig arall wedi cael ei enwebu'n ffurfiol i ymuno â rhestr hir o ryfeddodau'r byd - clod y mae'n ei haeddu'n fawr ac un sy'n cydnabod y rôl arwyddocaol a chwaraeodd y rhanbarth yma yn y diwydiant llechi yn y DU ac o amgylch y byd yn ystod ein hanes diwydiannol.

"Heddiw, bydd yr enwebiad yn chwarae rhan enfawr wrth roi hwb pellach i'r diwydiant twristiaeth a gweithredu fel catalydd i fwy o fuddsoddiad ledled gogledd-orllewin Cymru."

Am ragor o wybodaeth am y cais neu brosiect LleCHI, ewch i www.llechi.cymru neu ddilyn y diweddaraaf ar y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol: Twitter - @LlechiCymru; Facebook - @LlechiCymruWalesSlate; Instagram - @LlechiCymruWalesSlate



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Arwydd y Gwanwyn

Tydan ni'n lwcus fel Cymry, yn y Ddraig Goch mae gennym y faner gorau yn y byd, heb amheuaeth. A pheth gwell na'r cennin Pedr fel arwyddlun? Mae hanes go iawn tu ôl i'r faner wrth gwrs a gallwn ni fynd i Ddinas Emrys, ger Beddgelert a sefyll uwchben ble roedd y Ddraig Goch a'r Ddraig Wen yn ymladd. Ond dyw'r stori yna ddim yn wir meddwch chi, ond a ydych chi'n hollol siwr? Roedd ein gelynion dros y ffin yn gwybod bod dreigiau yng Nghymru achos ar y mapiau cynnar doedd dim manylion i ddangos yn ein gwlad ddewr ni, dim ond y frawddeg 'Here be Dragons'!

Yn fy nyddiau i yn yr ysgol go brin fydd y cennin Pedr mewn blodau ar gyfer diwrnod ein nawddsant a'r cennin roedden ni'n gwisgo i'r ysgol ar ddydd Gwyl Dewi. Bechgyn drygionus oedden ni wrth gwrs a'n harfer oedd cnoi'r dail agosach at ein cegau. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn o oglau cennin yn ystod y gwasanaeth boreol. Plant ynte!

Roeddwn i'n synnu gweld cennin Pedr mewn blodau tu allan i'r capel ble mae'n gymdeithas Cymraeg yn cyfarfod a hynny ar y 13eg o fis Ionawr! Tybed oedd hyn yn arwydd o'r newid hinsawdd? Dw'n i ddim, ond mae'r sinig ynof fi yn meddwl mai rhywbeth i wneud efo'r diwydiant blodau ydi hynny, wedi bod yn gweithio ar fagu gwahanol straen i ehangu'r tymor, siwr o fod. Ond dw i ddim yn cwyno, mae'r blodyn yn ein sicrhau bod tymor y gwanwyn ar y ffordd a'r byd yn ailddechrau efo bywyd, a lliwiau, newydd. Ardderchog!



Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi!

Rob Evans



AMSERLEN NEWYDD S4C



Mae S4C yn lawnsio amserlen newydd sbon – eich amserlen chi.

Rydyn ni wedi trafod a gwrando ar farn ein gwylwyr ac mae'r amserlen wedi ei llunio er mwyn cysoni rhaglenni newyddion ac operâu sebon, a chynnig cyfresi newydd cyffrous.

O 24 Chwefror ymlaen bydd modd i chi fwynhau:

- Newyddion nos Lun i Gwener am 7.30
- Pobol y Cwm nos Lun i Iau am 8.00 gyda rhifyn estynedig ar nos Fercher
- Rownd a Rownd nos Fawrth a Iau am 8.25

- Ffermio yn symud i 9.00 ar nos Lun
- Cyfresi cyfarwydd a newydd am 9.00 o nos Lun i nos Iau gan ddechrau gyda Corau Rhys Meirion, Ysgol ni: Maesincla, Cynefin a Jonathan.
- Chwaraeon byw ar nos Wener
- Rhaglen ychwanegol o Heno yn fyw ar Nos Sadwrn am 7.30 (gan ddechrau ar 8 Chwefror)

Wrth gysoni ein rhaglenni, rydym wedi gwneud y dewis yn hawdd i chi.

Mwynhewch yr arlwy!

Stormydd

Glaw, glaw a mwy o law. Dyna fu hi dros y mis diwethaf. Ond yn ffodus, er gwaethaf y glaw, ychydig o ddifrod a fu'n yr ardal o gymharu â difrod Llanberis yn 2012 a Chwm y Glo yn 1987. Ond digon o law i Lyn Bogelyn ail ymddangos am rai dyddiau. Hyd y gwyddom, fu neb yn ddigon dewr i fentro arno mewn cychod chwaith. Ychydig o drigolion yr ardal sy'n sylweddoli fod y llyn yn cyrraedd at Gwm y Glo ers talwm, a dim ond mewn cyfnodau o law trwm a llifogydd y bydd yr hen lyn yn ymddangos bellach.





Garddio

MAWRTH

Mae'r gwanwyn yn arfer cyrraedd erbyn canol mis Mawrth. Mae'r cennin Pedr yn harddu'r ardal yn awr. Mae mwy o ddyddiau braf erbyn hyn ac mae 'na gyfle i wneud amryw o dasgau yn yr ardd. Rhaid paratoi gwelyau ar gyfer yr hadau, hau amryw o bethau, tocio llwyni a thacluso'n gyffredinol o gwmpas yr ardd.

Tasgau

1. Gwarchod unrhyw dyfiant newydd rhag malwod a gwlithod.
2. Plannu nionod bach shallots, nionod sets a thatws cynnar.
3. Gallech blannu tatws yng nghornel y tŷ gwydr. Mi fyddan nhw'n barod ymhen rhyw 10-12 wythnos.
4. Plannu bylbiau sy'n blodeuo yn yr haf.
5. Codi a hollti ambell glwstwr o flodau lluosflwydd [perennial].
6. Gosod compost newydd [trwch o rhyw ddwy fodfedd] yn y potiau fydd yn dal eich blodau.
7. Torri'r lawnt os oes angen - ar ddiwrnod sych.
8. Chwynnu! Gorau po gyntaf y cewch chi wared â nhw.

Amser i ddechrau plannu!

Er bod y dyddiau'n ymestyn a'r haul yn gryfach, mae'n well oedi ychydig nes bod llai o bosibilrwydd i ni gael rhew caled; ond dyma'r amser i ychwanegu maeth i'r pridd. Fforchiwch yr wyneb er mwyn i'r awyr dreiddio oddi tano.

Gorffennwch docio'r rhosynnau a phrysgwydd eraill, gan edrych am afiechyd neu ffwng. Tociwch rosmari yn ofalus – dydy o ddim yn tyfu allan o hen bren.

Plannwch datws cynnar - arbrofwch drwy eu tyfu mewn bwced neu botyn mawr os nag oes gennych lawer o ardd. Gallwch blannu pannas, ffa a chennin hefyd.

Mae teulu'r nionod, shalots a garleg yn wydn iawn. Plannwch nhw rŵan, yn agos i'r wyneb ond cadwch olwg arnyn nhw am fod adar yn gallu gwneud difrod. Mae nionod yn hoff o bridd mân. Peidiwch â rhoi gormod o wrtaith iddynt, neu fe gewch chi nionod meddal yn y pen draw ac ni fyddant yn cadw'n dda dros y gaeaf.




MERCHER 11 MAWRTH 10.00yb

HANESION ARDAL TAN Y MARCHLYN A TAL Y WAEN (2½ milltir)
CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN
CYMEDROL GYDA ALLT I'W DDRINGO. SGIDIAU CERDDED.

GWENER 20 MAWRTH 2.00yp

DAEAREG A CORNELI COLL YR HEN DREF, CAER-NARFON (1½ milltir)
CYCHWYN: TU ALLAN I BRIF MYNEDFA 'Y GALERI', CAERNARFON HAWDD.

CROESAIR - Mawrth



Ar draws

- 1 Math o fwyd o'r Eidal (7)
- 5 Arswyd (4)
- 7 Coler neu gadwyn am wddf anifail (5)
- 8 Canmoliaeth (4,2)
- 9 Nerth (4)
- 10 Darogan (7)
- 12 Dewrder (5)
- 14 Rhoi eich gair (3)
- 18 Gair i ddisgrifio rhywun tywyll ei liw (7)
- 19 Cadw neu arbed rhywun rhag niwed (4)
- 21 Rhan ysbrydol unigolyn (5)
- 22 Anghyffredin o dda (6)

I lawr

- 1 Math o gôt fer (6)
- 2 Grawn (5)
- 3 Barddoniaeth grefyddol (4)
- 4 Math o fwyd wedi'i wneud o laeth (6)
- 5 Anifail sy'n cael ei alw yn 'byfflo' yn America (6)
- 6 Uchelwr o radd rhwng dug a iarll (7)
- 11 Cofrestru (7)
- 13 Nesau (6)
- 15 Wythfed (5)
- 16 Gwartheg godro (5)
- 17 Symud yn gyflym (5)
- 20 Gair i ddisgrifio rhywbeth sydd ymhell o wyneb y ddaear (4)



MAWRTH 24 MAWRTH 2.00yp

HANESION MYNYDD LLANDEGAI (3 milltir)
CYCHWYN: NEUADD PENTREF MYNYDD LLANDEGAI.
CYMEDROL. YCHYDIG O LWYBRAU CYHOEDDUS.
SGIDIAU CERDDED.

TEITHIAU CERDDED GWYLIO'R SÊR.

Mae'r teithiau yma yn cael eu trefnu ar fyr rhybydd i gymeryd mantais o unrhyw tywydd da. I dderbyn e-byst y Cynllun Cerd-ded a Darganfod, yna cysylltwch â:
garethroberts754@yahoo.co.uk

Un funud fach ...

BYTH BELLACH

'A byth bellach nid ymwelwn ni.'

Rhaid darllen geiriau yn eu cyd-destun. O beidio â gwneud hynny, gall y frawddeg uchod, er enghraifft, swnio'n ddigalon iawn. Ai rhywun wedi ei siomi sy'n siarad? Rhywun sy'n ofni'r gwaethaf? Rhywun sy'n gwybod na chaiff fyth eto ymweld â lle arbennig? Neu waeth fyth, rhywun na chaiff fyth eto weld person arbennig? Profiad dirdynol yw ofni, neu hyd yn oed wybod i sicrwydd, na ddaw cyfle eto i weld golygfa gyfarwydd neu i fod yng nghwmni cyfaill a châr. 'Byth bellach nid ymwelwn ni.'

Arferwn ddweud mai geiriau olaf Dewi Sant oedd 'Gwnewch y pethau bychain'. Nid dyna'r gwir yn hollol. A derbyn bod Rhygyfarch, a ysgrifennodd hanes Dewi tua'r flwyddyn 1090, oddeutu 500 mlynedd wedi marw'r Sant, yn agos ati, dyma eiriau olaf Dewi yn llawn: 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch lawen. A chedwch eich ffydd a'ch cred. A gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi. A minnau a gerddaf y ffordd yr aeth ein tadau iddi. Ac yn iach ichwi. A boed rymus ichwi fod ar y ddaear. A byth bellach nid ymwelwn ni.'

Ddeuddydd cyn ei farw, wrth ddweud y geiriau hyn ar ddiwedd pregeth, mae Dewi'n ffarwelio â'i gynulleidfa. Mae'n eu hannog i fod yn llawen; yn eu cymell i lynu wrth eu ffydd; ac yn eu siarsio i ddilyn ei esiampl trwy wneud y pethau bychain. Mae'n dymuno iddynt iechyd a nerth. Gan wybod ei fod ar fin cerdded 'y ffordd yr aeth ein tadau iddi', a bod y gwahanu ar ddigwydd, mae'n dweud na fydd yn eu gweld eto; 'A byth bellach nid ymwelwn ni.'

Debyg bod yna ofid a phoen y tu cefn i'r geiriau. Debyg y teimlai Dewi chwithdod na fyddai'n gweld ei gyfeillion wedi hynny, a mwy o chwithdod na ddeuai cyfle pellach i gyhoeddi'r Efengyl y treuliodd ei oes yn ei gwasanaethu. Ac eto, cyd-destun y ffarwelio hwn yw 'Byddwch lawen.'

Gwyddai Dewi mai rhan yn unig o'r stori oedd y 'byth bellach' hwn. Nid oedd modd osgoi'r gwahanu oedd ar ddigwydd: ef ei hun yn mynd 'y ffordd yr aeth ein tadau iddi' a'i gyfeillion yn aros 'ar y ddaear'. Ond oherwydd yr Efengyl, ac oherwydd y ffydd a'r gred y sonia amdani, gŵyr Dewi mai dros dro y bydd y gwahanu hwnnw. Dyna pam y gall, er gwaethaf popeth, eu hannog i fod yn llawen.

Aeth bron i bymtheg canrif heibio ers dyddiau Dewi. Er treigl y blynyddoedd, yr un o hyd yw poen a gofid y gwahanu y soniai amdano. Ond trwy'r Efengyl, yr un hefyd yw'r gobaith Cristnogol nad yw'r gwahanu'n barhaol i'r rhai a roddodd eu ffydd a'u cred yn yr Arglwydd Iesu Grist. Trwy ras, rhyw ddydd mi gerddwn ninnau'r ffordd yr aeth Dewi a holl ddisgyblion Iesu Grist ym mhob oes iddi. Ie, trwy drugaredd Duw mi gerddwn y ffordd i fywyd tragwyddol y nefoedd.

JOHN PRITCHARD

Pigion Byd Natur

Diolch Byth am Ffrwythau!



Y tro hwn, canolbwyntir ar erddi a pherllannau, gan fwrw i gof enw ambell aderyn sy'n ymweld â hwynt, ee. coch y berllan, ac hefyd bryfed o bob lliw a llun. Ia! ynte! fel petai ffrwythau'n bodoli er mwyn anghenion plant dynion a neb arall yn unig!

... rhy ychydig o fwyta ffrwythau sydd yng Nghymru. Nid ydym wedi dysgu eto eu prisio yn agos i'w gwerth fel ymborth maethlawn, nac am eu rhagoriaethau meddygaethol. Heblaw bwyta rhy ychydig, yr ydym hefyd yn eu bwyta yn llawer rhy afreolaidd, ac, felly, yn colli y gwir rinwedd a berthyn iddynt... Mestica Y Frythones, mis Mawrth (1891).

Oddeutu lai na chanrif yn ôl, ceid ar ffermydd yng Nghymru berllannau efo afalau, eirin, gellyg, yn cael eu tyfu ynddynt. Lleihau a wnaethant ran niferoedd. Eto i gyd, daeth tro ar fydd.

Diodydd sy'n ail-ennill eu plwyf yw Perai a Seidr Traddodiadol o Gymru. Roedden nhw'n cael eu cynhyrchu'n bennaf ar ffermydd gan ddefnyddio gellyg ac afalau o berllannoedd. Mae adfywiad y diodydd yn seiliedig ar gynhyrchwyr artisaidd yn aildarganfod ac yn adfer hen berllannoedd a phlannu perllannoedd newydd. Anferth o hwb' i gynhyrchwyr seidr Cymru. Y Cymro, 16 Mehefin (2017).

Yn y flwyddyn 2015 cyhoeddwyd 'Garddwriaeth yng Nghymru', ble dywedir bod gan Gymru botensial diwydiant garddwriaeth sy'n ffynnu, ar yr amod ei fod yn gallu ymateb i'r her o ychwanegu gwerth at gynhyrchu a dyfir yn lleol.

Datgelir mai ond 0.08% o holl dir amaethyddol Cymru sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth, ond dengys Ystadegau Amaethyddol Cymru bod y tir a ddefnyddir (ac eithrio tyfu tatws) wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf, o 1301ha yn y flwyddyn 2010, 1599ha yn 2015, hyd 1628ha yn 2016, a cheir bod cyfanswm y tir, a ddefnyddir ar gyfer perllannau a ffrwythau bychain, wedi cynyddu 16% i 734ha.

Calonogol yn wir, a mwy byth eto ran her i'r dyfodol. Ie! debygaf i!

Dafydd Guto Ifan

SPAR



Y Storfa Spar Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

01286 673535

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG



Tybed faint ohonoch dreuliodd un nos Sadwrn yn gwylio Noson Lawen ar S4C, a chael cyfoeth o dalentau amrywiol o Ddyffryn Peris. Mae'n rhyfeddol cymaint o dalent sydd wedi dod i amlygrwydd cenedlaethol o'r ardal hon, a phob un ohonynt wedi cael cyfleoedd cychwynnol yn ein hysgolion cynradd ac yn ddiweddarach yn Ysgol Brynrefail neu gyda bandiau a chorau lleol. Diolch i Cwmni Da am gael defnyddio'r lluniau – ac i'r rhai gollodd y cyfle i wyluo'r rhaglen, mae i'w

gweld eto ar iplayer.

Rhaid peidio anghofio chwaith am ddoniau cerddorol clybiau pel-droed Llanberis a Llanrug a ymddangosodd ar raglen Rhys Meirion yn ystod y mis. Roedd y rhaglen yn chwa o awyr iach mewn mis llwm. Ac yn yr un gyfres cafwyd rhaglen llawer mwy teimladwy wrth i nifer o ferched y fro ymddangos a pherfformio mewn côr o rai fu ac sydd yn dioddef o gancr y fron.

Na, does dim diwedd ar dalentau ein bro.



Ar ben arall i'r lein


Wedi'r hir ddisgwyl mae is-ddeddfau pysgodfeydd newydd wedi eu cyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru, dim yn hawdd eu dadansoddi na'i debyn yn anffodus. Dryslud go iawn dwi'n gweld pethau yn enwedig i'r rhai sydd yn diddori mewn 'sgota'r pryf genwair, cewch wneud hyn am frithyll ond dim am eog - yn y byd go iawn sut mae hyn i fod i weithio sgwn i? Mae nifer o rwystrau eraill yn cael ei roi i'n fforddo'sgota, gyda maint a sut fachun iw ddefnyddio, mae'n amlwg i mi fod rhan helaeth o fy abywddi artiffisial naw'r yn da i ddim ond i'r bin ail-gylchu, ond ar y llaw arall mae llawer iawn o'r stwff yn hen a felly efallai ei fod yn rhoi rhyw gyfle imi ddechrau rhyw fusnes bach yn gwerthu hen gelfi 'sgota.

Os am gael golwg ar y deddfau newydd yna taflwch olwg ar:-

<https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/news/new-all-wales-fishing-byelaws-come-into-force/?lang=cy> (=cy ar y diwedd iw'r cyswllt cymraeg!)

Does dim dwywaith gyda un stroc o'i phensil mae'r gweinidog wedi newid holl ddull o bysgota Cymru, a drwy gadw'm clust yn agored am newyddion o gymdeithasau drwy'r wlad, beth sy'n dod yn amlwg yw'r ofn mawr bydd rhai clybiau sydd wedi bod yn cynnig pysgota lleol am bris rhesymol am ddegawdau yn gorfod cau ei drysau, drwy i sgotwrs lleol droi eu cefnau fel protest ar y ddifyg gwranddo a rhesymu gan y gwleidyddion yng Nghaerdydd.

Fel 'rwyf wedi adrodd 'r blaen 'rydym yn weddol ffodus yma gan ein bod yn gallu cynnig dulliau gwahanol o bysgota, a hefyd wrth gwrs mae'r llynnoedd ar brithyll brown gwyllt yn pysgota yn ardderchog. Diolch i'r drefn 'rydym fel cymdeithas wedi bod yn ffodus dros y blynyddoedd o allu prynu y rhan fwyaf o'r hawliau, ffodus dros ben. Ond er fod y rhan fwyaf o'r pysgota'n ddiogel mae'n rhaid bod yn wiliadwrs am gyfyngiadau eraill mae rhai yn geisio eu cyflwyno heb drafod eu cynnigio gyda'r gymdeithas, a rhaid dweud, does ond un corff sy'n achosi pryder a hwnw'n gorff y buasai pawb yn dychmygu y buasai'n rhoi cefnogaeth gryf i clw lleol oherwydd y gwaith 'rydym a wedi ei gyflawni'n tuag at yr amgylchedd leol. Y sefydlaid sy'n ein siomi fwyaf yw Cyngor Gwynedd, a dyma engrafft - cefais wybod yn o ddiweddar fod cyfarfod wedi ei gynnal yn y Bala rhwng swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd, pwrpas dod at eu gilydd oedd dan y penawd 'Cyfarfod Rheoli Torgoch Llyn Padarn' fe wnaethwyd cais dan y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gael gweld be oedd wedi mynd ymlaen, i'n mawr syndod gwelwyd fod y cyfarfod yma wedi ei gynnal ar 29ed Mehefin 2018. Wel, y gymdeithas yw berchenogion y rhan fwyaf o hawliau pysgota Padarn a 'roedd cynnal cyfarfod or math heb roi gwahaoddiad i'r rhanddalwyr mwyaf yn siomedigaeth enfawr. Ond y siom fwyaf oedd gweld dan item 7 sef 'Pysgotfa Torgoch Llyn Padarn' ar cwestiwn - Gwynedd Council - a oes modd iddynt atal pysgota am y torgoch, atebwyd - Oes fel ti-feddianwyr, ond nid ydynt yn berchenogion ar y llyn i gyd, a felly a fydd pysgotwyr (dwi'n cymryd aelodau'r gymdeithas) yn defnyddio eu hawliau ar eiddo'r clwb - wel yr ateb fuasai - yn sicr. Tydi'r holl beth yn drefniol. Mae mwy ar hyn, ond y peth goreu i'w wneud yw cadw powdwr y gymdeithas yn sych tan 'rwyn gobeithio bydd yn bosib cynnal cyfarfod i drafod o ddifri be di hawliau pwy ar y llyn. Ond peidiwch a dal eich gwynt gan ein bod wedi bod yn ceisio dal pen rheswm ar cyngor ar be di be ers naw mlynedd bellach.



Mi fyddai'n meddwl weithiau fy mod yn rhy hallt a beirniadol tuag at y cyngor, ond maen'r anodd dros ben a cydymod a be sy'n mynd ymlaen, drwy gofio'r cyfarfod 'na yn y Bala mae arwydd wedi ei godi yn ddiweddar ar gydlyfiad Afon y Bala a Phadarn yn dynodi 'Ardal Gadwraeth' Man Magwraeth y Torgoch - dim cychod rhwng misoedd Hydref a Mai'. Mae hyn i'w groesawu, ond eto gan mai'r gymdeithas iw perchenogion hawliau pysgota glannau'r afon, mater bach fuasai a chwrtais buasai dweud wrthym be sy'n mynd ymlaen. Sgwn i a oes bwriad i roi arwydd i fyny ym Mhenllyn sydd yn lecyn magwraeth llawn, os na mwy pwysig nid yn unig i'r torgoch ond ein brithyll cynhenin ac wrth gwrs yr eog, sydd wedi cael deddfau lym yw rhoi iw warchod - felly 'rydym yn edrych ymlaen i weln arwyddion 'ryn fath yn cael eu gosod.

3ydd Mawrth cawn weld tymor arall yn agor ei ddrws, sgwn be a ddaw, mae un peth yn sicr ni fydd prinder dŵr eleni. A fydd y brithyll yn fodlon dod allen i chware, ond bydd yn rhaid rhoi rhybydd i phob eog, pryfaid gwnwair i frithyll brown yn unig!

Huw Price. Hughes

Chwaraeon

RHEDEG MYNYDD

Tymor rhedeg mynydd

Ras Moel-y-ci yw'r ras fynydd gyntaf yn ein hardal ni, ond eleni, ni chafodd ei chynnal.

Mae rasys Pencampwriaeth Gogledd Cymru eisoes wedi cychwyn, gyda ras Mynydd Conwy eisoes wedi ei chynnal ganol Chwefror. Llongyfarchiadau i Maggie Oliver ar ddod y ferch gyntaf dros 70 oed.

Ddiwedd mis Mawrth bydd Cyfres Rasys Nos Fawrth yn cychwyn, ac y mae'r rhain wedi cynyddu mewn poblogrwydd dros y blynyddoedd diwethaf gyda dros gant o oedolion a nifer dda o ieuenctid yn cystadlu'n rheolaidd. Mae'n gyfle gwych i rai sydd heb fentro rhedeg mynyddoedd i gael blas ar y gamp, oherwydd does yr un o'r rasys yn hwy na rhyw bedair milltir – ond fod dringo (serth iawn ar ambell un!) ym mhob un ohonynt.

Mae deuddeg ras yn y gyfres, yn ymestyn o ddiwedd Mawrth i ganol Mehefin. £2 yw cost cystadlu (£1 i ieuenctid), ond mae'n bosib talu ymlaen llaw a chael yr holl rasys am bris deg. Bydd y ras gyntaf yn cychwyn o Ganolfan y Fron am 7.00 31ain o Fawrth. Bydd yr ail ras yn Abergwyngregyn am 7.15 ar y 7fed o Ebrill.

Ymarferion i Ieuenctid

Mae Rhedwyr Eryri wedi trefnu sesiynnau ymarfer i ieuenctid yr ardal er mwyn eu hannog i gystadlu yn Rasys Nos Fawrth a rasys mynydd lleol eraill yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae croeso i blant oedran Blwyddyn 5 a hŷn i'r sesiynnau. Byddant yn cael eu cynnal ar foreau Sul am 9.00 o'r Orsaf Dân yn Llanberis, ac ar nos Fawrth am 5.00 o'r Ganolfan yn Llanberis.

Gwobr Gymnasteg



Llongyfarchiadau i Tryfan Gwynedd Jones, Rhiw Goch, Clwt y Bont ar ei enwebiad a thlws gan Glwb Gymnasteg Eryri a Gymnasteg Cymru i gydnabod ei ymdrechion fel 'y bachgen gorau' yn ei oedran a chategori gan y Clwb.

Derbyniodd Tryfan y wobr ar y llwyfan mewn seremoni wobrwyo fawreddog yn Feniw Cymru nos Sadwrn 25ain Chwefror yng nghwmni dros 200 o gynulleidfa yn cynrychioli aelodau clybiau gymnasteg ar draws Gogledd Cymru. Da iawn ti, dal ati!

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnig
GOFAL PLANT CYMRU
The **CHILDCARE** Offer for WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cyntaf sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

30 hours a week of Government funded early education and childcare for eligible working parents of three and four year olds for up to 48 weeks of the year.

Ar gael yn • Available in
Gwynedd a Môn
01248 352436
gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Chwaraeon

Tymor traws-gwlad



Mae'r tymor traws-gwlad yn dirwyn i ben, a Phencampwriaeth Gogledd Cymru eisoes wedi cyrraedd ei phen-llanw yng Nghroesoswallt ganol fis Chwefror yn dilyn rasys misol ym Mangor, Llaneurgain, Amwythig, Bae Colwyn, Wrecsam a Dolgellau. Cryn dipyn o waith teithio i redeg mewn mwd, oherwydd dyna oedd hi bron ym mhob ras yn ystod y gaeaf! Ond fe ddaeth llwyddiannau lleol.

Enillodd tim merched Rhedwyr Eryri y gystadleuaeth agored a'r gystadleuaeth dros 40 oed. Miranda Grant, Llanberis oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth agored i ferched a hefyd i'r adran dros 35 oed. Daeth Tammy Lewis Jones, Fachwen, yn drydedd ferch dros 45 oed, a Maggie Oliver, Dinorwig yn ail dros 70 oed.

Yn adran y dynion, roedd Rhedwyr Eryri yn bedwerydd yn y gystadleuaeth agored, yn drydydd yn y gystadleuaeth dros 40 oed, ond yn fuddugol dros 65 oed. Daeth Dyfed Thomas, Llanrug yn ail yn yr adran dros 45 oed.

Ymlaen i Ffeinal Eryri



Llongyfarchiadau mawr i dim hoci dan 14 oed Ysgol Brynrefail ar ddod yn Bencampwyr Hoci Môn ac Arfon. Bydd y tim rwan yn mynd ymlaen i gystadlu yn Ffeinal Eryri ym Mhlas Silyn, Penygroes ddechrau mis Mawrth.